# Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Caerdydd

## Rhagfyr 2015

CARDIFF
CAERDYDD

# Hysbysiad

Paratowyd a bwriadwyd y ddogfen hon a'i chynnwys er gwybodaeth a defnydd Cyngor Caerdydd yn unig yng nghyswllt Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Cyngor Caerdydd.

Nid yw Atkins Ltd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw barti arall mewn perthynas â neu sy'n deillio o neu mewn cysylltiad â'r ddogfen hon a/neu ei chynnwys.

## Hanes y ddogfen

| **Rhif gwaith: 5138009** | | | **Cyfeirnod dogfen: 5138009/DG01** | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Diwygiad | Disgrifiad o bwrpas | Ffynhonnell | Gwiriwyd | Adolygwyd | Awdurdodwyd | Dyddiad |
| Diwygiad 1.0 | Adolygiad Swyddog Cyngor Caerdydd | KIO / LG | A Cox | J Jones | | 08/07/15 |
| Diwygiad 2.0 | Mater ymgynghori, wedi'i gyfuno i un ddogfen | KIO | | | D Brain | 30/09/15 |
| Diwygiad 3.0 | Diwygiadau Swyddogion Cyngor Caerdydd | | | | D Brain | 05/10/15 |
| Diwygiad 4.0 | Diwygiadau ymgynghori Swyddogion Cyngor Caerdydd | GT | | | D Brain | 09/12/15 |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

# Crynodeb Gweithredol

Mae Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd (CRhPLlau) yn amlygu'r peryglon llifogydd a ddaw o afonydd, y môr, dŵr wyneb, dŵr daear a chronfeydd dŵr ac mae'n disgrifio sut y bydd Awdurdodau Rheoli Perygl (ARhP) yn gweithio â'i gilydd gyda chymunedau i reoli perygl llifogydd.

Fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (ALlLlA) gydag Ardal Perygl Llifogydd, gosodwyd cyfrifoldeb statudol ar Gyngor Dinas Caerdydd i baratoi CRhPLl. Datblygwyd y CRhPLl gyda hyn mewn golwg ac mae'n nodi sut y bydd Cyngor Caerdydd yn rheoli llifogydd dros y chwe blynedd nesaf, fel mai'r cymunedau sydd fwyaf mewn perygl a'r amgylchedd a fydd yn elwa fwyaf.

## Diben Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd i reoli peryglon llifogydd

Mae llifogydd yn parhau i fod yn fygythiad allweddol i gymunedau ledled Cymru, ac mae rheoli'r perygl hwn drwy gynllunio gofalus yn bwysig er mwyn lleihau'r perygl i gymunedau. Mae'r CRhPLl yn symud ymlaen yr amcanion a'r camau gweithredu a nodir yn ein Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol (SRhPLlLl).

Bydd y CRhPLl hwn hefyd yn anelu at gyflawni rhai o'r amcanion a nodwyd yn Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru[1] sy'n darparu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru drwy bedwar amcan cyffredinol:

- **Lleihau effeithiau** llifogydd ac erydu arfordirol ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd.
- **Codi ymwybyddiaeth** ymhlith pobl, a'u cynnwys wrth ymateb i berygl llifogydd ac erydu arfordirol.
- Sicrhau **ymateb effeithiol a chyson** i lifogydd ac erydu arfordirol.
- **Blaenoriaethu buddsoddiad** yn y cymunedau sydd fwyaf mewn perygl.

## Ardal Astudiaeth

Yr ardal yr ymdrinnir â hi yn y cynllun hwn yw ardal weinyddol Cyngor Dinas Caerdydd, y cyfeirir ato'n fwy cyffredin fel Cyngor Caerdydd. Cyngor Caerdydd fel yr ALlLlA sydd â chyfrifoldeb statudol dros reoli'r perygl o lifogydd o ddŵr ffo wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin, a elwir hefyd yn ffynonellau perygl llifogydd lleol.

Ystyrir bod ychydig dros 12,000 o bobl mewn perygl o lifogydd yn yr ardaloedd llifogydd risg isel (mwy eithafol).

[1] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/nationalstrategy/strategy/?skip=1&lang=cy

## Sut yr ydym yn rheoli perygl llifogydd yng Nghaerdydd ar hyn o bryd

Yn ystod y pum mlynedd diwethaf, mae Cyngor Caerdydd wedi derbyn dros 3,000 o adroddiadau am lifogydd ledled ardal yr awdurdod. Mae'r holl wasanaethau ar draws Caerdydd yn cyfrannu at reoli perygl llifogydd ar draws y sir; mae'r enghreifftiau yn cynnwys;

- Mae gan Uned Rheoli Brys Cyngor Caerdydd nifer o gynlluniau argyfwng y gellir eu rhoi ar waith os bydd llifogydd mawr yng Nghaerdydd. Cyflwynir senarios brys i bob rhan o'r Cyngor a gwasanaethau brys eraill i brofi gwydnwch y Cyngor o ran digwyddiadau o'r fath. Mae swyddogion Rheoli Argyfyngau hefyd yn rhoi cyngor i fusnesau a chymunedau lleol o ran sut i liniaru a delio â'r canlyniadau os bydd llifogydd.
- Mae gwasanaeth priffyrdd y cyngor yn gweithio'n ddygn i gynnal a chadw a thrwsio draeniau, ceuffosydd a chwteri'r Cyngor, drwy raglen arolygu a glanhau i gael gwared ar rwystrau a gweddillion o gyrsiau dŵr, yn ogystal â chynnal a chadw gridiau a sgriniau sbwriel.
- Rydym yn barhaus yn adolygu'r angen i sicrhau buddsoddiad cyfalaf i leihau'r perygl o lifogydd ledled yr ardal. Sicrheir arian buddsoddi o amrywiaeth o ffynonellau, gan gynnwys cyllid grant gan Lywodraeth Cymru, Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (CDRhE) a'r Cyngor.
- Cynhaliwyd arolygon erydu arfordirol er mwyn i ni ddeall yn well y risgiau a wynebir gan ein cymunedau ger yr arfordir.

## Amcanion Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd Caerdydd


Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd LlC "Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol yng Nghymru". Mae'r ddogfen hon yn nodi pedwar Amcan Cyffredinol y mae'n rhaid ymdrin â hwy mewn Strategaethau Lleol.

Mae'r pedwar amcan cyffredinol fel a ganlyn:

- **Lleihau effeithiau** llifogydd ac erydu arfordirol ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd,
- **Codi ymwybyddiaeth** ymhlith pobl, a'u cynnwys wrth ymateb i berygl llifogydd ac erydu arfordirol
- Sicrhau **ymateb effeithiol a chyson** i lifogydd ac erydu arfordirol
- **Blaenoriaethu buddsoddiad** yn y cymunedau sydd fwyaf mewn perygl.

## Sut y rheolwn berygl llifogydd ar lefel leol

Ledled Caerdydd rydym wedi nodi'r mesurau arfaethedig yn erbyn y pedair thema, fel y dangosir isod. Mae hyn yn nodi'r holl fesurau ar gyfer rheoli a lleihau'r perygl o lifogydd o ffynonellau perygl llifogydd lleol




Bydd angen gwneud ymdrech i godi ymwybyddiaeth o'r perygl o lifogydd fel y gall pob preswylydd helpu'r ALlLlA i **baratoi** ar gyfer llifogydd a rheoli'r lefelau perygl llifogydd i lefelau derbyniol. Bydd hyn fel arfer yn cynnwys gweithgareddau pellach;

- I godi ymwybyddiaeth o lifogydd yn y gymuned
- I weithio gyda phartneriaid i wella cadernid y gymuned.

Mae angen i ni wella ein dealltwriaeth o sut mae ein systemau draenio'n **diogelu** ein hardal, yn arbennig systemau hanesyddol o beipiau a cheuffosydd draenio lle nad oes cofnodion ar gael.

- Gwella'r lefel o ddealltwriaeth o gapasiti ceuffosydd ar draws yr ardal i gludo dŵr llifogydd
- Adolygu ein cyfundrefn arolygu cegau ceuffosydd a sgriniau sbwriel i sicrhau bod blaenoriaeth yn cael ei rhoi i'r rheini sydd yn y perygl mwyaf

Mae mesurau i alluogi cymunedau i **adfer** yn dilyn llifogydd a gwella cadernid yn y dyfodol hefyd yn flaenoriaethau. Bydd y rhain fel arfer yn cynnwys:

- Cynlluniau adfer; cymuned a seilwaith, a
- Lefel genedlaethol; gwersi a ddysgwyd o lifogydd, newid i bolisi yswiriant ayb.

## Monitro ac adolygu

Bydd y Strategaeth Genedlaethol yn cael ei hadolygu'n ffurfiol bob chwe blynedd, gan adlewyrchu gofynion Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009.

Felly, mae Cyngor Caerdydd wedi penderfynu mabwysiadu’r dull gweithredu canlynol:

- Adolygiad Blynyddol; gweithrediadau wedi eu cynllunio i sicrhau eu bod yn parhau i adlewyrchu a gwireddu’r Amcanion a nodir.
- Adolygiad Llawn; yn cael ei gynnal bob 6 blynedd, gyda’r cyntaf ym mis Ionawr 2021.
- Adolygiad Ad-hoc/ar ôl y digwyddiad; yn dilyn digwyddiad llifogydd difrifol.

# Cynnwys

***1 Cyflwyniad** ........................................................ Error! Bookmark not defined.*

1.1 Beth yw Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd? ........................................................ 1

1.2 Pwy sy'n gyfrifol am baratoi CRhPLlau ................................................................. 1

1.3 Dull Cyngor Caerdydd............................................ **Error! Bookmark not defined.**

***2 Diben Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd i reoli peryglon llifogydd..** Error! Bookmark not defined.*

2.1 Beth yw Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd ............................................................... 3

2.2 Beth a gynhwyswyd yn y CRhPLl hwn ..................... **Error! Bookmark not defined.**

2.3 Cyd-destun Deddfwriaethol..................................... **Error! Bookmark not defined.**

***3 Ardal Astudiaeth**................................................ Error! Bookmark not defined.*

3.1 Ardal Weinyddol...................................................... **Error! Bookmark not defined.**

3.2 Perygl Llifogydd yng Nghaerdydd ........................... **Error! Bookmark not defined.**

3.3 Asesiad Cychwynnol o Fygythiad Llifogydd ............ **Error! Bookmark not defined.**

3.4 Sut y Daethom i Gasgliadau o'r Mapiau Risg Llifogydd...........**Error! Bookmark not defined.**

***4 Sut yr ydym yn rheoli perygl llifogydd yng Nghaerdydd ar hyn o bryd** Error! Bookmark not defined.*

4.1 Gweithrediadau presennol Cyngor Caerdydd ............. **Error! Bookmark not defined.**

4.2 Crynodeb o'r Broses i Ddethol a Blaenoriaethu Mesurau er mwyn Cyflawni'r Amcanion ........................................................................................................... 23

4.3 Sut yr ydym yn blaenoriaethu ein gwaith..................... **Error! Bookmark not defined.**

4.4 Gyda phwy y gweithiwn i reoli perygl llifogydd yng Nghaerdydd **Error! Bookmark not defined.**

4.5 Sut y cydlynwyd y CRhPLl hwn ................................. **Error! Bookmark not defined.**

***5 Sut y rheolwn berygl llifogydd ar lefel leol.......** Error! Bookmark not defined.*

5.2 Sgrinio Amgylcheddol Strategol .............................. **Error! Bookmark not defined.**

5.3 Mesurau a Chodau Adrodd UE Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd................. **Error! Bookmark not defined.**

***6 Cydlynu gyda Chynllun Rheoli Basn Afon Hafren.........** Error! Bookmark not defined.*

6.1 Cyffredinol ................................................................ **Error! Bookmark not defined.**

6.2 Trosolwg o Ardal Basn Afon Hafren........................... **Error! Bookmark not defined.**

6.3 Crynodeb o gydlynu datblygiad a gweithrediad gyda'r Cynllun Rheoli Basn Afon...41

***7 Trosolwg Awdurdod Lleol Caerdydd*** ................ *Error! Bookmark not defined.*
7.1 Dadansoddiad yn ôl Ardal Gymunedol ..................... **Error! Bookmark not defined.**
7.2 Mesurau arfaethedig ................................................ **Error! Bookmark not defined.**
7.3 Dadansoddiad yn ôl Ardal ........................................ **Error! Bookmark not defined.**
7.5 Crynodeb ledled Caerdydd ...................................... **Error! Bookmark not defined.**

***8 Ymgynghori*** ....................................................... *Error! Bookmark not defined.*
8.1 Dull Ymgynghori ........................................................................................ 151
8.2 Ymgynghoriad Cyhoeddus ....................................... **Error! Bookmark not defined.**
8.3 Ymgynghori gyda Chyrff Statudol eraill ............................................................. 154
8.4 Newidiadau yn dilyn ymgynghori ............................. **Error! Bookmark not defined.**

***9 Monitro ac adolygu*** ............................................. *Error! Bookmark not defined.*

***10 Cyfeiriadau*** ......................................................... *Error! Bookmark not defined.*

# Tablau


Tabl 3–1 Crynodeb o gymunedau mewn perygl ... 14
Tabl 4-1 Ein Hamcanion Strategaeth Leol ... 21
Tabl 4-2 Ein Mesurau Strategaeth Leol ... 22
Tabl 4–3 Mesurau Blaenoriaeth Strategaeth Llifogydd Lleol Caerdydd ... 25
Tabl 5-1 Crynodeb o fesurau a fabwysiadwyd i'r CRhPLl hwn ... 32
Tabl 5-2 Codau Adrodd UE ... 36
Tabl 5-3 Crynodeb o Fesurau CRhPLl Cyngor Caerdydd a chodau adrodd UE a briodolir ... 39
Tabl 6-1 Crynodeb o Fesurau Rheoli Basn Afon Hafren ... 43
Tabl 7-1 Cyfrifon ar gyfer Perygl Llifogydd ar draws Caerdydd ... 45
Tabl 7-2 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Caerdydd ... 47
Tabl 7-3 Cyfrifon Cryno ar gyfer yr holl Gymunedau (digwyddiad risg isel) ... 48
Tabl 7-4 Crynodeb o effaith economaidd llifogydd ar draws Caerdydd ... 53
Tabl 7-5 Mesurau Arfaethedig ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd Lleol ... 57
Tabl 7-6 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Adamsdown ... 61
Tabl 7-7 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Butetown ... 64
Tabl 7-8 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Caerau ... 67
Tabl 7-9 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Treganna ... 70
Tabl 7-10 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Cathays ... 73
Tabl 7-11 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Creigiau/Sain Ffagan ... 76
Tabl 7-12 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Cyncoed ... 79
Tabl 7-13 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Treláí ... 82
Tabl 7-14 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Y Tyllgoed ... 85
Tabl 7-15 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Gabalfa ... 88
Tabl 7-16 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Grangetown ... 92
Tabl 7-17 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Y Mynydd Bychan ... 95
Tabl 7-18 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Llys-faen ... 98
Tabl 7-19 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Llandaf ... 101
Tabl 7-20 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Ystum Taf ... 104
Tabl 7-21 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Llanisien ... 107
Tabl 7-22 Cyfrifon ar gyfer Ardal Gymunedol Llanrhymni (heb ei chynnwys o fewn Ardal Perygl Llifogydd) ... 110
Tabl 7-23 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Pentwyn ... 113
Tabl 7-24 Cyfrifon ar gyfer Ardal Gymunedol Pentyrch (heb ei chynnwys o fewn Ardal Perygl Llifogydd) ... 116
Tabl 7-25 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Pen-y-lan ... 119
Tabl 7-26 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Plasnewydd ... 122
Tabl 7-27 Cyfrifon ar gyfer Ardal Gymunedol Pontprennau/Pentref Llaneirwg (heb ei chynnwys o fewn Ardal Perygl Llifogydd) ... 125
Tabl 7-28 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Radur ... 128
Tabl 7-29 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Rhiwbeina ... 131
Tabl 7-30 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Glan-yr-afon ... 134
Tabl 7-31 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Tredelerch ... 137
Tabl 7-32 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Sblot ... 140
Tabl 7-33 Cyfrifon ar gyfer Ardal Gymunedol Trowbridge (heb ei chynnwys o fewn Ardal Perygl Llifogydd) ... 143
Tabl 7-34 Cyfrifon ar gyfer Ardal Perygl Llifogydd Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais 146
Tabl 8-1 Barn y cyhoedd ar agweddau o reoli perygl llifogydd ... 153
Tabl 8-2 Sylwadau CNC ar y CRhPLl ... 154
Tabl 8-3 Sylwadau DCWW ar y CRhPLl ... 155

Tabl 8-4 Diwygiadau Caerdydd i argymhellion CNC ... 156
Tabl 8-5 Diwygiadau Caerdydd i argymhellion DCWW ... 157

# Ffigyrau

Ffigwr 2–1 Amserlen rheoliadau Perygl Llifogydd (2009) ... 5
Ffigwr 3–1 Lleoliad Cyngor Caerdydd yng Nghymru ... 7
Ffigwr 3–2 Mapiau Llifogydd Dŵr Wyneb ar draws Caerdydd ... 10
Ffigwr 3–3 Map yn dangos ffiniau ardaloedd a gynhwysir yn y CRhPLl ... 12
Ffigwr 3–4 Ardal Perygl Llifogydd a chymunedau yng Nghaerdydd ... 15
Ffigwr 4-1 Map o Ddigwyddiadau Llifogydd y rhoddwyd gwybod amdanynt ar draws Caerdydd (2010 -2015) ... 17
Ffigwr 4–2 Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd ... 29
Ffigwr 6–1 Dalgylch Rheoli Ardal Basn Afon ... 42
Ffigwr 7–1 Map Perygl Llifogydd – Peryglon i Bobl ... 51
Ffigwr 7–2 Map Perygl Llifogydd – Gweithgaredd Economaidd ... 54
Ffigwr 7-3 Map Perygl Llifogydd – Difrod Economaidd ... 55
Ffigwr 7–4 Map Perygl Llifogydd – Peryglon i'r Amgylchedd Naturiol a Hanesyddol ... 56
Ffigwr 7-5 Map Perygl Llifogydd – Adamsdown ... 60
Ffigwr 7-6 Map Perygl Llifogydd - Butetown ... 63
Ffigwr 7-7 Map Perygl Llifogydd - Caerau ... 66
Ffigwr 7-8 Map Perygl Llifogydd - Treganna ... 69
Ffigwr 7-9 Map Perygl Llifogydd - Cathays ... 72
Ffigwr 7-10 Map Perygl Llifogydd - Creigiau/Sain Ffagan ... 75
Ffigwr 7-11 Map Perygl Llifogydd - Cyncoed ... 78
Ffigwr 7-12 Map Perygl Llifogydd - Treláí ... 81
Ffigwr 7-13 Map Perygl Llifogydd - Y Tyllgoed ... 84
Ffigwr 7-14 Map Perygl Llifogydd - Gabalfa ... 87
Ffigwr 7-15 Map Perygl Llifogydd - Grangetown ... 91
Ffigwr 7-16 Map Perygl Llifogydd - Y Mynydd Bychan ... 94
Ffigwr 7-17 Map Perygl Llifogydd - Llys-faen ... 97
Ffigwr 7-18 Map Perygl Llifogydd - Llandaf ... 100
Ffigwr 7-19 Map Perygl Llifogydd – Ystum Taf ... 103
Ffigwr 7-20 Map Perygl Llifogydd – Llanisien ... 106
Ffigwr 7-21 Map Perygl Llifogydd – Llanrhymni ... 109
Ffigwr 7-22 Map Perygl Llifogydd – Pentwyn ... 112
Ffigwr 7-23 Map Perygl Llifogydd – Pentyrch ... 115
Ffigwr 7-24 Map Perygl Llifogydd – Pen-y-lan ... 118
Ffigwr 7-25 Map Perygl Llifogydd – Plasnewydd ... 121
Ffigwr 7-26 Map Perygl Llifogydd – Pontprennau/ Pentref Llaneirwg ... 124
Ffigwr 7-27 Map Perygl Llifogydd – Radur ... 127
Ffigwr 7-28 Map Perygl Llifogydd – Rhiwbeina ... 130
Ffigwr 7-29 Map Perygl Llifogydd – Glan-yr-afon ... 133
Ffigwr 7-30 Map Perygl Llifogydd – Tredelerch ... 136
Ffigwr 7-31 Map Perygl Llifogydd – Sblot ... 139
Ffigwr 7-32 Map Perygl Llifogydd – Trowbridge ... 142
Ffigwr 7-33 Map Perygl Llifogydd – Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais ... 145

# Atodiadau

***Atodiad A.*** ***Cyfarwyddeb Llifogydd yr UE***

***Atodiad B.*** ***Awdurdodau Rheoli Peryglon***

***Atodiad C.*** ***Mesurau SRhPLlLl***

# 1 Cyflwyniad

## 1.1 Beth yw Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd?

Mae Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd (CRhPLl) yn amlygu'r peryglon llifogydd a ddaw o afonydd, y môr, dŵr wyneb, dŵr daear a chronfeydd dŵr ac mae'n disgrifio sut y bydd Awdurdodau Rheoli Peryglon (ARhP) yn gweithio gyda chymunedau i reoli perygl llifogydd.

## 1.2 Pwy sy'n gyfrifol am baratoi CRhPLlau

I Gymru, rhaid i Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC) gynhyrchu CRhPLlau ar gyfer pob Ardal Basn Afon. Rhaid i'r CRhPLlau hyn ymdrin â llifogydd o brif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr.

Rhaid i'r Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (ALlLlA) gynhyrchu CRhPLlau i'r holl Ardaloedd Perygl Llifogydd sy'n ymdrin â llifogydd o ffynonellau lleol, sef;

- dŵr wyneb,
- cyrsiau dŵr cyffredin, a
- dŵr daear.

Fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (ALlLlA) gydag Ardal Perygl Llifogydd, gosodwyd cyfrifoldeb statudol ar Gyngor Dinas Caerdydd i baratoi CRhPLl. Ar draws Cymru mae gofyn i 8 ALlLlA gynhyrchu CRhPLlau, ond mae bob un o'r 22 ALlLlA yng Nghymru wedi dewis llunio cynllun ar gyfer y cylch adrodd cyntaf hwn.

Ar gyfer cylchoedd CRhPLlau i'r dyfodol, y tu hwnt i 2015, mae'n fwriad gan CNC i weithio mewn partneriaeth â'r holl Awdurdodau Rheoli Peryglon (ARhPau) i gynhyrchu CRhPLlau ar y cyd ar gyfer pob ffynhonnell o berygl llifogydd

Awdurdodau Rheoli Peryglon yw:

- Cyfoeth Naturiol Cymru,
- Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol (yng Nghymru, dyma'r 22 awdurdod unedol),
- byrddau draenio mewnol (BDM); ers mis Ebrill 2015, trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am ddyletswyddau BDM i CNC,
- cwmnïau dŵr, ac
- awdurdodau priffyrdd (sy'n cynnwys cyfrifoldebau awdurdodau lleol).

## 1.3 Dull Cyngor Caerdydd

Trwy ddefnyddio'r wybodaeth sydd ar gael, rydym wedi ceisio casglu a diweddaru ein dealltwriaeth o'r lefel bresennol a lefel y perygl posibl yn y dyfodol o lifogydd o ffynonellau llifogydd lleol yr ydym yn gyfrifol amdanynt.

Ar gyfer y cynllun hwn, rydym wedi adolygu'r effaith a lle bo'n ymarferol wedi nodi gweithgareddau (mesurau) y byddwn yn ceisio eu cynnal er mwyn rheoli perygl llifogydd i lefel dderbyniol yn ardal yr awdurdod.

# 2 Diben Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd i reoli peryglon llifogydd

## 2.1 Beth yw Cynllun Rheoli Perygl Llifogydd

**Mae llifogydd yn parhau i fod yn fygythiad allweddol i gymunedau ledled Cymru**, ac mae rheoli'r perygl hwn drwy gynllunio gofalus yn bwysig er mwyn lleihau'r perygl i gymunedau. Mae'r CRhPLl yn caniatáu i ARhPau ddatblygu gwell dealltwriaeth o'r perygl o bob ffynhonnell o lifogydd, ac i gytuno ar flaenoriaethau i reoli'r perygl hwnnw.

Datblygwyd y CRhPLl gyda hynny mewn golwg ac mae'n nodi sut y bydd Cyngor Caerdydd yn rheoli llifogydd dros y chwe blynedd nesaf fel mai'r cymunedau sydd fwyaf mewn perygl a'r amgylchedd a fydd yn elwa fwyaf. Wrth wneud hynny, mae'r CRhPLl hwn yn symud ymlaen yr amcanion a'r camau gweithredu a nodir yn ein Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol (SRhPLlLl).

Bydd y CRhPLl hwn hefyd yn anelu at gyflawni rhai o'r amcanion a nodwyd yn Strategaeth Genedlaethol Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol Llywodraeth Cymru[2] sy'n darparu'r fframwaith cenedlaethol ar gyfer rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol yng Nghymru drwy bedwar amcan cyffredinol:

- **Lleihau effeithiau** llifogydd ac erydu arfordirol ar unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd.
- **Codi ymwybyddiaeth** ymhlith pobl, a'u cynnwys wrth ymateb i berygl llifogydd ac erydu arfordirol.
- Sicrhau **ymateb effeithiol a chyson** i lifogydd ac erydu arfordirol.
- **Blaenoriaethu buddsoddiad** yn y cymunedau sydd fwyaf mewn perygl.

## 2.2 Beth a gynhwyswyd yn y CRhPLl hwn

Mae'r wybodaeth a gynhwysir yn y CRhPLl hwn yn cynnwys y cydrannau a nodir yng Nghyfarwyddeb Llifogydd yr UE a Rheoliadau Perygl Llifogydd 2009 (gweler Atodiad A). Casglwyd y rhan fwyaf o'r wybodaeth hon a'i diweddaru drwy'r cylch cyntaf, a chafodd ei thynnu o ganfyddiadau ein ACBLl[3] a'r mesurau a nodwyd gennym ac a amlinellwyd yn ein SRhPLlLl.

Mae'r CRhPLl hwn yn nodi amcanion priodol ar gyfer rheoli perygl llifogydd yn yr ardaloedd a gynhwysir yn y cynllun.

Mae'r amcanion yn canolbwyntio ar leihau canlyniadau andwyol llifogydd i;

- iechyd pobl,
- yr Amgylchedd,
- treftadaeth ddiwylliannol, a
- gweithgarwch economaidd.

I wneud hyn, mae'r CRhPLl hwn;

[2] http://gov.wales/topics/environmentcountryside/epq/flooding/nationalstrategy/strategy/?skip=1&lang=cy
[3] Asesiad Perygl Llifogydd Cychwynnol – paratowyd yr Asesiad cychwynnol fel sy'n ofynnol gan y Rheoliadau Perygl Llifogydd

- yn amlygu'r ardaloedd sydd fwyaf mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb, cyrsiau dŵr cyffredin a dŵr daear yn ardal Cyngor Caerdydd,
- yn tynnu casgliadau o’r peryglon hyn, ac
- yn nodi'r mesurau y byddwn yn eu cymryd dros y 6 blynedd nesaf i liniaru'r peryglon hyn, a gwneud ein cymunedau yn fwy gwydn.

Oherwydd natur y llifogydd a’r sefyllfa ariannu bresennol, rydym hefyd wedi edrych ar fesurau i leihau'r tebygolrwydd o lifogydd gan ddefnyddio mesurau nad ydynt yn strwythurol, a chynnwys pob agwedd ar reoli perygl llifogydd, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth o lifogydd a gwell dealltwriaeth o faterion llifogydd lleol. Mae pob un o'r mesurau a nodir yn y cynllun hwn wedi cael eu dosbarthu i 4 categori:

- Atal
- Diogelu
- Parodrwydd
- Adfer ac Adolygu

Gweler Tabl 7-5 am fwy o fanylion.

## 2.3 Cyd-destun Deddfwriaethol

### 2.3.1 Rheoliadau Perygl Llifogydd

O dan Reoliadau Perygl Llifogydd 2009, mae’r ALlLlAau yn gyfrifol am gynhyrchu CRhPLlau ar gyfer Ardaloedd Perygl Llifogydd Dangosol a nodwyd yn yr Asesiadau Risg Llifogydd Cychwynnol (ACBLlau)[4].


CNC sy’n gyfrifol am gynhyrchu CRhPLlau ar gyfer cymunedau mewn perygl o lifogydd o brif afonydd a'r môr.

Dim ond er mwyn rheoli llifogydd o ddŵr wyneb, cyrsiau dŵr cyffredin a dŵr daear y mae’n ofynnol i’r ALlLlAau gynhyrchu CRhPLlau lleol.

Mae'r Rheoliadau yn amlinellu cylch chwe blynedd gydag amserlenni ar gyfer adrodd i'r Comisiwn Ewropeaidd a chyhoeddi 3 allbwn allweddol fel y nodir isod.

[4] Yng Nghymru nodwyd Ardaloedd Risg Llifogydd Dangosol lle mae mwy na 5,000 o bobl mewn perygl o lifogydd.

***Ffigwr 2–1 Amserlen rheoliadau Perygl Llifogydd (2009)***




Asesiadau Perygl Llifogydd Cychwynnol – cyhoeddi erbyn **Rhag 2011**

Cynlluniau Rheoli Peryglon Llifogydd erbyn **Rhag 2011**

**Rhag 2009** Rheoliadau Perygl Llifogydd

Mapiau peryglon a risg erbyn **Rhag 2013**

## Asesiad Cychwynnol o Fygythiad Llifogydd (ACBLl)

Roedd yr ACBLl yn ymarfer sgrinio lefel uchel a oedd yn casglu gwybodaeth am berygl llifogydd lleol sylweddol o lifogydd yn y gorffennol a rhai'r dyfodol, yn seiliedig ar wybodaeth a oedd ar gael yn rhwydd. Cwmpas yr ACBLl oedd ystyried llifogydd o ddŵr ffo wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin, ac unrhyw ryngweithio rhwng y ffynonellau hyn a phrif afonydd, gyda'r nod o adnabod Ardaloedd Perygl Llifogydd, fel y nodir yn y Cyfarwyddebau Llifogydd Ewropeaidd (gweler adran **Error! Reference source not found.**).

## Cynhyrchu mapiau perygl llifogydd a risg llifogydd ar gyfer Ardaloedd Perygl Llifogydd

Yn 2013, gan weithio gyda CNC a'r ALlLlAau, cynhyrchodd Asiantaeth yr Amgylchedd Fap Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb wedi'i ddiweddaru.

Mae'r map wedi'i ddiweddaru yn welliant sylweddol ar y mapiau llifogydd dŵr wyneb blaenorol (2008 a 2010), o ran dull a chynrychiolaeth o'r perygl o lifogydd. Mae'r Map Llifogydd ar gyfer Dŵr Wyneb (uFMfSW) a ddiweddarwyd yn asesu senarios llifogydd o ganlyniad i lawiad gyda'r cyfle canlynol o ddigwydd mewn unrhyw flwyddyn benodol:

- 1 mewn 30 mlynedd (3% AEP),
- 1 mewn 100 mlynedd (1% AEP), ac
- 1 mewn 1000 o flynyddoedd (0.1% AEP).

Mae'r map wedi'i ddiweddaru hefyd yn rhoi'r data canlynol ar gyfer bob senario llifogydd:

- Ehangder,
- Dyfnder,
- Cyflymder (gan gynnwys cyfeiriad y llif ar y cyflymder mwyaf), a
- Perygl (fel gweithrediad dyfnder a chyflymder).

Mae hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ffynhonnell y data (h.y. p'un a oedd o fodelu a gynhyrchwyd yn genedlaethol ynteu o fodelu a gynhyrchwyd yn lleol) a'r hyder yn yr allbynnau data. Ceir rhagor o fanylion am asesu'r allbwn o'r mapiau perygl yn adran **Error! Reference source not found.**.

### Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd i Ardaloedd Perygl Llifogydd.

Rydym ar hyn o bryd yng nghylch cyntaf y Rheoliadau Perygl Llifogydd, ac mae'r CRhPLlau yn cynrychioli allbwn terfynol y cylch hwn, a rhaid eu cyhoeddi erbyn Rhagfyr 2015.

### 2.3.2 Y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr

Cyflwynwyd y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr ym mis Ebrill 2010 yng Nghymru a Lloegr. Ei bwriad oedd gweithredu argymhellion Syr Michael Pitt yn dilyn llifogydd helaeth 2007[5]. Hefyd bwriadwyd i'r ddeddf egluro rolau a chyfrifoldebau yr Ardaloedd Rheoli Llifogydd (ARhLl).

O dan y Ddeddf, roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynhyrchu Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol, ac fel ALlLlA roedd yn ofynnol i Gyngor Caerdydd gynhyrchu SRhPLlLl. Mabwysiadwyd y strategaeth gan y Cyngor ym mis Medi 2014. Mae'n rhaid i'r SRhPLlLl fod yn gyson â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Crëwyd SRhPLlLl i ddiffinio pwy yw'r Awdurdodau Rheoli Peryglon o fewn ardal leol, beth yw eu swyddogaeth a beth yw eu cyfrifoldebau. Bu'r SRhPLlLl yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus.

### 2.3.3 Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr (CFfD) 2000 yn gyfarwyddeb Undeb Ewropeaidd sy'n ymrwymo aelod-wladwriaethau i gyflawni statws ansoddol a meintiol da yr holl gyrff dŵr erbyn 2015.

Un o ofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yw bod rhaid i CNC (ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn Lloegr) gynhyrchu a diweddaru Cynllun Rheoli Basn Afon ar gyfer pob rhanbarth. Mae Caerdydd yn gorwedd o fewn dalgylch Afon Hafren, ac mae wedi'i chynnwys yng Nghynllun Dalgylch Rheoli Cymoedd y De Ddwyrain.

### Amcanion y Gyfarwyddeb

Mae'r Gyfarwyddeb yn anelu at sicrhau 'statws da' i'r holl afonydd, llynnoedd, dŵr daear a dŵr wyneb yn yr UE.

Asesir statws ecolegol a chemegol y cyrff dŵr yn unol â'r meini prawf canlynol:

- Ansawdd biolegol (pysgod, infertebratau benthig, fflora dyfrol),
- Ansawdd hydromorffolegol megis strwythur cefnen afon, parhad afon neu is-haen gwely'r afon,
- Ansawdd ffisegol-gemegol megis tymheredd, ocsigeniad ac amodau maetholion, ac
- Ansawdd cemegol sy'n cyfeirio at safonau ansawdd amgylcheddol i lygryddion sy'n benodol i fasn afon. Mae'r safonau hyn yn pennu'r crynodiadau uchaf ar gyfer

[5] Adolygiad Pitt - Learning Lessons from the 2007 floods, Swyddfa'r Cabinet, Mehefin 2008, http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100807034701/http:/archive.cabinetoffice.gov.uk/pittreview/thepittreview/final_report.html

llygryddion dŵr penodol. Os eir tu draw i hyd yn oed un crynodiad o'r fath, ni fydd y corff dŵr yn cael ei ystyried fel un sydd â "statws ecolegol da".


# 3 Ardal Astudiaeth

## 3.1 Ardal Weinyddol

Yr ardal a gynhwysir yn y cynllun hwn yw ardal weinyddol Cyngor Dinas a Sir Caerdydd, y cyfeirir ato'n fwy cyffredin fel Cyngor Caerdydd.

Mae Cyngor Caerdydd yn cynnwys ardal o tua 158 $km^2$ sydd â phoblogaeth o tua 346,100 (Cyfrifiad 2011, ffigyrau cychwynnol). Yng Nghaerdydd amcangyfrifir bod bron i 150,000 o eiddo preswyl, 8,000 o eiddo dibreswyl a 1,300 o wasanaethau critigol (ysbytai, cartrefi nyrsio/gofal/ymddeoliad, is-orsafoedd trydan, ysgolion, Gorsafoedd Heddlu, Tân ac Ambiwlans, carchardai, a gweithfeydd trin carthion neu ddŵr gwastraff).

*Ffigwr 3–1 Lleoliad Cyngor Caerdydd yng Nghymru*




## 3.2 Perygl Llifogydd yng Nghaerdydd

### 3.2.1 Dalgylchoedd Prif Afonydd

Mae Caerdydd oddi mewn i ddalgylchoedd prif afonydd Elái, Taf a Rhymni. Ystyrir bod rhannau o'r sir mewn perygl o lifogydd o brif afonydd, gyda nifer o ardaloedd yn elwa ar amddiffynfeydd sy’n bodoli ar hyn o bryd. Caiff y perygl llifogydd o'r ffynonellau hyn ei reoli gan CNC.

### 3.2.2 Perygl o lifogydd lleol yng Nghaerdydd

Gan Gyngor Caerdydd fel yr ALILIA y mae’r cyfrifoldeb statudol dros reoli'r perygl o lifogydd o ddŵr ffo wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin, a elwir hefyd yn ffynonellau perygl llifogydd lleol.

Fodd bynnag, nid yw dŵr llifogydd yn parchu ffiniau statudol. I gydnabod yr angen am fwy o gydweithio, mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yn gosod dyletswydd ar yr Awdurdodau Rheoli Peryglon i gydweithredu, er mwyn hwyluso gweithio mewn partneriaeth, rhannu gwybodaeth a chyfathrebu'n well. Felly lle bo hynny'n ymarferol, rydym yn gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Rheoli Peryglon eraill i reoli'r perygl o lifogydd ledled ardal yr awdurdod. Gweler Adran **Error! Reference source not found.** am enghreifftiau gweithredol o hyn.

Gweler isod grynodeb o lefel ystyriol y risg o ffynonellau perygl llifogydd lleol.

### Cyrsiau Dŵr Cyffredin

Mae pedwar cwrs dŵr cyffredin allweddol yng Nghaerdydd; Nant yr Eglwys Newydd, Nant y Tyllgoed, Nant y Rhath a Nant Glandulas. Hefyd mae nifer o gyrsiau dŵr cyffredin eraill yn yr ardal, llawer ohonynt yn cael eu sianelu'n rhannol o dan yr ardaloedd hynny o'r ddinas a ddatblygwyd yn ddwys. Ystyrir bod Camlas Cyflenwi'r Doc hefyd yn gwrs dŵr cyffredin, ac mae'n rhedeg o dyniad o Afon Taf yn Blackweir i Ddoc Bute drwy rannau o sianeli a cheuffosydd camlesu agored.

Mae Gwastadeddau Gwynllŵg o fewn ffin Cyngor Caerdydd yn ymestyn o Afon Rhymni yn y gorllewin i Barc Busnes Llaneirwg yn y Dwyrain. Mae Gwastadeddau Gwynllŵg yn cynnwys ardal o dir a adferwyd. Fel rhan o'r adfer a rheoli dilynol, ceir system helaeth o ffosydd ('reens') sy'n draenio'r tir isel. Cynhaliwyd astudiaeth lefel uchel fel rhan o Asesiad Strategol o Ganlyniadau Llifogydd Caerdydd (ASCLI, Atkins, 2009 & 2012)[6] i asesu'n ddangosol y perygl o lifogydd o'r system ffosydd. Rhagwelodd yr asesiad hwn mai tu allan i ffin Cyngor Caerdydd yn unig y byddai llifogydd sylweddol, mewn ardaloedd isel. Felly, yn ogystal â rheoli gweithredol a chynnal a chadw rheolaidd o'r system ffosydd gan y BDM, ystyrir nad oes unrhyw risg sylweddol o lifogydd o'r ffosydd sydd tu mewn i ffin Cyngor Caerdydd.

### Dŵr Ffo Wyneb

Fel arfer, achosir llifogydd o ddŵr ffo wyneb ar ôl glawiad trwm iawn, naill ai ar ôl cyfnod o lawiad parhaus sydd wedi mwydo'r dalgylch, neu'n dilyn cyfnod o dywydd sych, sy'n achosi i wyneb y ddaear fynd yn galed ac anhydraidd. Mae'r ddau senario yn arwain at ddŵr ffo uchel o'r dalgylch, gan arwain at lifoedd brig uchel.

Yn aml o dan y fath amgylchiadau, gwaethygir llifogydd oherwydd ddiffyg ffosydd a draeniau i gludo dŵr ymaith, ffosydd yn cael eu llenwi neu osod pibelli ynddynt, neu gynnal a chadw gwael o ffosydd a chyrsiau dŵr gan berchnogion glannau afon. Gall difrod i nentydd a draeniau eraill hefyd gael ei achosi gan ddatblygwyr neu dda byw. Gall cynnydd yn nodweddion dŵr ffo y dalgylch gael ei achosi gan ffermwyr yn aredig ar ongl sgwâr i gyfuchliniau yn hytrach nag yn gyfochrog iddynt, symudiad pridd uchaf, gwaredu llystyfiant, gan gynnwys torri coed neu glirio'r safle fel arall. Yn gyffredinol mae'r materion hyn i gyd yn debygol o arwain at gynnydd yn y llif dŵr wyneb.

Caiff dŵr ffo hefyd ei newid os yw'r ardal yn destun i ddatblygiad newydd sy'n cynyddu'r ardal balmantog neu arwynebedd to ac yn lleihau'r cyfle i ddŵr socian i mewn i'r ddaear. Yn yr achos hwn, byddwn drwy'r broses gynllunio ac mewn partneriaeth ag ymgynghorai statudol eraill yn gosod rheolaethau i gyfyngu ar y gyfradd uchaf o ddŵr ffo o'r datblygiadau

[6] Astudiaeth Cam 3 SFCA Caerdydd - Ardal A Gwynllŵg Afonol
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Planning/Local-Development-Plan/Evidence-Base/Pages/Evidence-Base.aspx


hyn i lefel nad yw'n uwch na dŵr ffo tir glas neu gyfraddau gollwng presennol lle, bo'n briodol.

Mae mapio llifogydd gan CNC yn rhoi syniad o faint o lifogydd dŵr wyneb a allai ddigwydd ar draws y sir, fel y dangosir yn y ffigwr canlynol.

### Llifogydd Dŵr Daear

Mae llifogydd dŵr daear yn digwydd pan fo lefel y dŵr daear yn codi uwchben lefelau'r wyneb. Mae'n fwyaf tebygol o ddigwydd mewn ardaloedd sydd â chreigiau athraidd o danynt, a elwir yn ddyfrhaenau. Gall y rhain fod yn ddyfrhaenau helaeth, rhanbarthol, fel calch neu dywodfaen, neu gallant fod yn raeanau tywod neu afon leol gyda chreigiau llai athraidd o danynt. Nid oes unrhyw wybodaeth am lifogydd dŵr daear hanesyddol, sy'n awgrymu bod y risg o lifogydd dŵr daear yn isel yng Nghaerdydd.

### *Ffigwr 3–2 Mapiau Llifogydd Dŵr Wyneb ar draws Caerdydd*




© Crown copyright and database rights (2015) Ordnance Survey (INSERT LICENCE NUMBER HERE). Contains Ordnance Survey data. © Crown copyright and database right (2015).
Project: P:\GBSAA\Water\Industry\5138009 Cardiff LFRP\60 Works Process\64 Drawings\CAD_GIS_BIM\01-WIP\G\MAP\5138009ATKZZF1_CC_Surface_Water_Flood_maps.mxd

## 3.3 Asesiad Cychwynnol o Fygythiad Llifogydd

Cynhaliwyd proses ACBLl er mwyn sefydlu lefel y risg o lifogydd ym mhob ardal ALlLlA. Edrychodd y broses yn benodol ar lifogydd dŵr wyneb, dŵr daear a chyrsiau dŵr cyffredin.


Er mwyn cael dull cyson o weithredu, nododd DEFRA a Llywodraeth Cymru (LlC) nifer o ddangosyddion risg allweddol a'u trothwyon i sefydlu risg sylweddol ac i benderfynu ar fodolaeth Ardaloedd Perygl Llifogydd.

Seiliwyd y fethodoleg ar ddefnyddio'r mapiau llifogydd a gynhyrchwyd gan CNC i nodi sgwariau 1km lle mae perygl llifogydd yn uwch na throthwy diffiniedig. Nodir y sgwariau fel ardaloedd sydd uwchlaw'r Trothwy Perygl Llifogydd (Sgwariau Glas). Gosodwyd y dangosyddion perygl llifogydd allweddol a'u trothwyon i sgwâr 1km fel a ganlyn:

- lleiafswm o 200 o bobl,
- lleiafswm o 20 o fusnesau, a
- 2 neu fwy o wasanaethau critigol.

Mae'r ffigwr canlynol yn nodi'r ardaloedd Sgwâr Glas ac ehangder yr arwynebedd a nodwyd fel Ardal Perygl Llifogydd yng Nghaerdydd.

## *Ffigwr 3–3 Map yn dangos ffiniau ardaloedd a gynhwysir yn y CRhPLl*




Contains Ordnance Survey data. © Crown copyright and database right (2015).
Project: P:\GBSAA\Water\Industry\5138009 Cardiff LFRP\60 Works Process\64 Drawings\CAD_GIS_BIM\01-WIP\GMAP\5138009ATKZZF2_CC_Flood_Risk_Area_and_Blue_Squares.mxd

## 3.4 Sut y Daethom i Gasgliadau o'r Mapiau Risg Llifogydd

Datblygwyd y mapiau risg llifogydd wedi'u diweddaru gyda mantais gwell argaeledd o wybodaeth a data digidol eang. Mae hyn yn cynnwys dadansoddiad o botensial dyfnderoedd llifogydd ar draws ardaloedd sydd â lefel uchel o hyder; o ganlyniad, mae gennym ddata yn cynrychioli'r ehangder posibl i 6 dyfnder llifogydd gwahanol: 0mm, 150mm, 200mm, 300mm, 600mm, 900mm, ar gyfer cyfres o wahanol ddigwyddiadau llifogydd.

Felly mabwysiadodd y dadansoddiad i'r cynllun hwn ddull sy'n gyson ar draws Cymru, i beidio ystyried ardaloedd y rhagwelir yr effeithir arnynt gan ddyfnderoedd llifogydd o lai na 200mm. Dewiswyd y lefel hon i adlewyrchu lefel nodweddiadol leiaf y lefel trothwy eiddo uwchlaw lefelau ffyrdd cyfagos, gan ganiatáu ar gyfer lefel y manylion y seiliwyd y modelu arni.

Yn gyffredinol, nid yw'r dadansoddiad ar gyfer y mapiau llifogydd yn ystyried y budd y gall unrhyw geuffosydd ei ddarparu. O ganlyniad, gellir ystyried ehangder y llifogydd a ddangosir fel y sefyllfa achos gwaethaf.

### 3.4.1 Y prif gymunedau sydd mewn perygl o lifogydd dŵr wyneb yng Nghyngor Caerdydd

Yn seiliedig ar arolygiad o'r mapiau perygl llifogydd a risg llifogydd wedi'u diweddaru, yr ydym wedi gallu asesu'r risg o ffynonellau perygl llifogydd lleol ar draws Caerdydd. At ddiben y dadansoddiad hwn, rhannwyd ardal yr awdurdod ar sail gymunedol yn seiliedig ar ffiniau wardiau cyngor.


Mae 29 o wardiau yn yr awdurdod; nid yw wardiau Llanrhymni, Pentyrch, Pontprennau/ Pentref Llaneirwg a Trowbridge mewn ardal risg llifogydd, fel y dangosir yn Ffigwr 3–4 dros y dudalen.

Ystyrir bod ychydig dros 12,000 o bobl mewn perygl o lifogydd o fewn yr ehangder llifogydd risg isel (mwy eithafol). Mae'r tabl canlynol yn rhoi crynodeb o nifer y bobl sydd mewn perygl o lifogydd o ffynonellau perygl llifogydd lleol yng Nghaerdydd a'r Ardal Perygl Llifogydd.

***Tabl 3–1 Crynodeb o gymunedau mewn perygl***

| | O fewn Ardal Perygl Llifogydd | Cyfanswm y boblogaeth yr effeithir arni | Poblogaeth yr effeithir arni o fewn ehangder APLI |
|---|---|---|---|
| Adamsdown | Ydyw | 355 | 355 |
| Butetown | Ydyw | 226 | 226 |
| Caerau | Ydyw | 486 | 486 |
| Treganna | Ydyw | 313 | 313 |
| Cathays | Ydyw | 280 | 280 |
| Creigiau/Sain Ffagan | Ydyw | 49 | - |
| Cyncoed | Ydyw | 202 | 176 |
| Trelái | Ydyw | 301 | 301 |
| Y Tyllgoed | Ydyw | 360 | 360 |
| Gabalfa | Ydyw | 94 | 94 |
| Grangetown | Ydyw | 1,076 | 1,076 |
| Y Mynydd Bychan | Ydyw | 334 | 334 |
| Llys-faen | Ydyw | 71 | 68 |
| Llandaf | Ydyw | 313 | 313 |
| Ystum Taf | Ydyw | 1,422 | 1,422 |
| Llanisien | Ydyw | 832 | 832 |
| Llanrhymni | Na | 214 | - |
| Pentwyn | Ydyw | 268 | 61 |
| Pentyrch | Na | 172 | - |
| Pen-y-lan | Ydyw | 952 | 926 |
| Plasnewydd | Ydyw | 362 | 362 |
| Pontprennau/Pentref Llaneirwg | Na | 99 | - |
| Radur | Ydyw | 162 | 47 |
| Rhiwbeina | Ydyw | 322 | 322 |
| Glan-yr-afon | Ydyw | 1,730 | 1,730 |
| Tredelerch | Ydyw | 256 | 139 |
| Sblot | Ydyw | 768 | 768 |
| Trowbridge | Na | 891 | - |
| Yr Eglwys Newydd a Thongwynlais | Ydyw | 1,020 | 1,020 |

***Ffigwr 3–4 Ardal Perygl Llifogydd a chymunedau yng Nghaerdydd***




© Crown copyright and database rights (2015) Ordnance Survey (INSERT LICENCE NUMBER HERE). Contains Ordnance Survey data. © Crown copyright and database right (2015).
Project: F:\5136009 Cardiff FRMP\60 Works Process\64 Drawings\CAD_GIS_BIM\01-WIP\GIS\MAP\5136009ATKZZF2_CC_Flood_Community_Areas.mxd

# 4 Sut yr ydym yn rheoli perygl llifogydd yng Nghaerdydd ar hyn o bryd

Nid yw rheoli perygl llifogydd yn beth newydd i Gaerdydd ac mae gwaith wedi bod ar y gweill ers nifer o flynyddoedd er mwyn atal, paratoi a lleihau tebygolrwydd a chanlyniadau llifogydd. Gall gwaith lliniaru llifogydd gymryd dwy ffurf wahanol; strwythurol a heb fod yn strwythurol:

- Strwythurol – sef newidiadau seilwaith; strwythurau ffisegol; amddiffynfeydd arfordirol sy'n helpu i gadw, sianelu neu atal symudiad dŵr.
- Heb fod yn Strwythurol - sef mwy addysgiadol neu lai amlwg fel codi ymwybyddiaeth, cynllunio argyfwng, rheolaethau cynllunio, tirlunio cydymdeimladol neu wneud defnydd o ddulliau draenio cynaliadwy (SuDs).

Defnyddiwyd y ddau ddull gan Gaerdydd.

## 4.1 Gweithrediadau presennol Cyngor Caerdydd

Yn y pum mlynedd diwethaf, derbyniodd Cyngor Caerdydd dros 3,000 o adroddiadau am lifogydd ledled ardal yr awdurdod. Mae'r ffigwr dros y dudalen yn rhoi cofnod o'r lleoliadau lle bu digwyddiadau yn ôl ardal gymunedol. Yn seiliedig ar nifer y digwyddiadau yr adroddwyd arnynt, y pum prif ardal yw;

- Grangetown 9%
- Cathays 7%
- Pen-y-lan 6%
- Treganna 6%
- Sblot 6%


### 4.1.1 Ymatebion brys

Mae gan Uned Rheoli Brys Cyngor Caerdydd nifer o gynlluniau argyfwng y gellir eu rhoi ar waith os oes digwyddiad llifogydd sylweddol yng Nghaerdydd. Erbyn hyn mae pedair ardal Cynllun Llifogydd Cymunedol;

- Pentref Gardd Rhiwbeina,
- Talbot Street,
- Marlborough Road, a
- Waterloo Gardens.

Cynhelir senarios digwyddiadau brys gyda phob rhan o'r Cyngor ac mae gwasanaethau brys eraill yn profi cadernid y Cyngor o ran digwyddiadau o'r fath. Hefyd mae Swyddogion Rheoli Argyfyngau yn rhoi cyngor i fusnesau a chymunedau lleol ynglŷn ag ymdrin â chanlyniadau a lleihau'r canlyniadau iddynt eu hunain petai llifogydd yn digwydd. Rydym hefyd wedi creu grŵp sy'n cynnwys y cymunedau sydd mewn perygl a'u haelodau etholedig o'r enw 'Cymunedau Cadarn Caerdydd'. Cynhaliwyd gweithdy ym mis Hydref 2014 i'w diweddaru ar y gwaith sy'n cael ei wneud gennym fel ymatebwyr, ac i fesur beth fyddent ei angen gennym ni i wella eu gwaith o fewn eu cymunedau.

***Ffigwr 4-1 Map o Ddigwyddiadau Llifogydd y rhoddwyd gwybod amdanynt ar draws Caerdydd (2010 -2015)***



### 4.1.2 Ymwybyddiaeth y Gymuned

Mae ymwybyddiaeth y gymuned o beryglon lifogydd yn cynyddu ar draws Caerdydd. Mae CNC, Cymunedau'n Gyntaf ac Uned Rheoli Brys y Cyngor yn cynnal gweithdai cymunedol a diwrnodau gweithredu i gefnogi cymunedau sydd mewn perygl o lifogydd. Maent yn codi ymwybyddiaeth ar draws yr holl gymunedau a busnesau o lefel risg llifogydd a wyneba pob cymuned, ac yn nodi'r camau y gall unigolion eu cymryd i helpu i wella cadernid eu cartrefi.

Er bod ymwybyddiaeth gyffredinol o lifogydd yn cynyddu, yn rhannol oherwydd y sylw a roddwyd yn y cyfryngau cenedlaethol i lifogydd fel y rhai yn Boscastle, Swydd Gaerloyw ac yn fwy diweddar yn Aberystwyth, mae angen gwneud mwy i baratoi cymunedau ar gyfer digwyddiadau o'r fath.

### 4.1.3 Cynnal a Chadw Priffyrdd

Mae maes gwasanaeth priffyrdd y cyngor yn gweithio'n galed i gynnal a thrwsio'r draeniau, ceuffosydd a rhigolau sy'n eiddo i'r cyngor, trwy raglen o arolygiadau a glanhau i gael gwared â rhwystrau a malurion o gyrsiau dŵr yn ogystal ag i gynnal gridiau a sgriniau sbwriel. Maent yn ymgymryd â chymysgedd o waith cynnal a chadw rhagweithiol ac adweithiol, gan ymdrin â galwadau ynghylch draeniau wedi blocio a llifogydd dŵr wyneb. Gallant hefyd weithredu pympiau cludadwy i leihau'r difrod a fyddai fel arall yn cael ei achosi gan ddigwyddiad llifogydd.

Amcangyfrifir bod tua 50,000 o rigolau/draeniau ar draws Caerdydd ynghyd â dros 100 o sgriniau sbwriel. Byddai ymweld â phob safle dros flwyddyn angen llawer mwy o gyllideb ac adnoddau nag sydd gennym. Rydym yn blaenoriaethu'r safleoedd yr ymwelwn â hwy, yn seiliedig ar ein profiad blaenorol o ardaloedd yr effeithiwyd arnynt. Adolygir y dull hwn yn barhaus.

Rydym yn gyfrifol am dros 250 o geuffosydd ar draws Caerdydd y gwyddom amdanynt. Ni wyddom beth yw cyflwr strwythurol y rhan fwyaf o'r ceuffosydd hyn. Mewn rhai achosion, yn enwedig lle'r ehangodd datblygiad dros amser, rydym yn ansicr o ehangder yr ardaloedd y maent yn ddraenio dŵr i ffwrdd oddi wrthynt, ac o ganlyniad, p'un a ydynt o faint digonol.

### 4.1.4 Cynlluniau lliniaru llifogydd

Mae Cyngor Caerdydd yn adolygu'n barhaus yr angen am fuddsoddiad cyfalaf i leihau'r perygl llifogydd ar draws yr ardal. Un enghraifft bresennol yw'r cynllun yn ddiweddar a gyflwynwyd yn Rhiwbeina.

Mae gan gyrsiau dŵr trefol Rhiwbeina hanes hir-sefydledig o lifogydd i eiddo preswyl a masnachol dros yr ugain mlynedd diwethaf. Cafwyd y digwyddiad sylweddol diweddaraf ym mis Mehefin 2009, pan foddwyd eiddo yn Wenallt Road, Heol Uchaf, Pen-y-Dre a nifer o leoliadau eraill ym mhentref Rhiwbeina. Achosodd y llifogydd ddifrod sylweddol i eiddo preswyl a masnachol. Amcangyfrifir bod cost y cynllun yn £1.5M. Cafwyd cyllid grant gan LlC a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) ar gyfer y rhan fwyaf o'r cynllun, a dyrannwyd cyfran o'r cynllun o gronfeydd y Cyngor. Cwblhawyd y cynllun yn gynharach eleni.

Mae'r Cyngor hefyd yn parhau i weithio gyda CNC i archwilio cynlluniau lliniaru newydd mewn ardaloedd risg uchel yn y Ddinas, megis ardal Pen-y-lan a Waterloo Gardens.

### 4.1.5 Morglawdd Bae Caerdydd

Ym mis Tachwedd 1999 cwblhawyd y morglawdd ac roedd y llifddorau yn cau ar adeg penllanw er mwyn cadw dŵr y môr o Fôr Hafren tu mewn i'r bae 500-erw. Crëwyd Morglawdd Bae Caerdydd i gwrdd â dau angen. Yn gyntaf, i greu lagŵn dŵr croyw parhaol 2km$^2$ a fyddai'n denu buddsoddiad i ardal dociau Caerdydd a oedd yn segur i raddau helaeth, ac i sbarduno adfywio. Yn ail, i ddarparu strwythur lliniaru llifogydd hanfodol rhag lefelau dŵr a oedd yn codi, sef lefel dŵr y môr a lefelau dŵr yn afonydd Taf ac Elái. Gwireddwyd y ddau fudd, ac maent yn dangos sut y gall gweithredu strwythurau amddiffyn rhag llifogydd ddod â budd lluosog yn eu sgil. Bellach mae Morglawdd Bae Caerdydd yn ffurfio rhan sylweddol o system amddiffyn arfordirol llinell arfordir Caerdydd.

### 4.1.6 Gweithio mewn partneriaeth

Mae Cyngor Caerdydd yn ymgysylltu â nifer o gyrff cyhoeddus cysylltiedig i geisio sicrhau gwell amgylchedd i bobl Caerdydd. Mae Cyngor Caerdydd yn aelodau o'r mudiadau/ gweithgorau canlynol;

- Sefydlwyd **Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd De Ddwyrain Cymru (SEWFRMG)** i hyrwyddo cyfnewid gwybodaeth rhwng Awdurdodau Lleol (ALl), Byrddau Draenio Mewnol (BDM), CNC, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) a LlC, ac i ddarparu sail ar gyfer trosolwg strategol rhanbarthol.
- **Bwrdd Draenio Mewnol Lefelau Cil-y-Coed a Gwynllŵg (CWLIDB)** *Ers mis Ebrill 2015, mae'r cyfrifoldeb am CWLIDB wedi trosglwyddo i Gyfoeth Naturiol Cymru.* Mae'r BDM yn gyfrifol am reoli'r system ddraenio ar Wastadeddau Gwent o ddydd i ddydd lle y byddai tir amaethyddol, masnachol a phreswyl gwerthfawr fel arall yn cael ei orlifo'n flynyddol. Mae gwaith y BDM hefyd yn hanfodol er mwyn cynnal diddordeb ecolegol ac archeolegol yr ardal, sy'n genedlaethol bwysig.

Yn sail i hyn mae'r cyfrifoldeb a roddir ar bob ALlLlA gan y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (DRhLlD) i ymgynghori ag ARhP:

> *"Rhaid i awdurdod perthnasol gydweithredu ag awdurdodau perthnasol eraill wrth arfer eu swyddogaethau llifogydd ac erydu arfordirol."*

- **Grŵp Llifogydd Ardal Caerdydd.** Sefydlwyd Grŵp Llifogydd Ardal Caerdydd i sicrhau dull aml-asiantaethol o ymdrin â digwyddiad llifogydd mawr yn Ninas a Sir Caerdydd.
- **Grŵp Arfordirol Aber Hafren (SECG) –** partneriaeth yw hon o awdurdodau lleol a sefydliadau eraill o amgylch Aber Hafren sy'n datblygu Cynlluniau Rheoli Traethlinau (CRhTau).

### 4.1.7 Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd Lleol

Cyflwynwyd y Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr ym mis Ebrill 2010 yng Nghymru a Lloegr. Y bwriad oedd gweithredu argymhellion Syr Michael Pitt yn dilyn llifogydd helaeth 2007[7]. Hefyd bwriadwyd i'r ddeddf egluro rolau a chyfrioldebau yr Ardaloedd Rheoli Llifogydd (ARhLl).

O dan y Ddeddf, roedd yn ofynnol i Lywodraeth Cymru gynhyrchu [Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol](), ac fel ALlLlA roedd yn ofynnol i Gyngor

---

[7] Adolygiad Pitt - Learning Lessons from the 2007 floods, Swyddfa'r Cabinet, Mehefin 2008, http://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20100807034701/http:/archive.cabinetoffice.gov.uk/pittreview/thepittreview/final_report.html

Caerdydd gynhyrchu SRhPLlLl. Mabwysiadwyd y strategaeth gan y Cyngor ym mis Medi 2014. Mae'n rhaid i'r SRhPLlLl fod yn gyson â'r Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Crëwyd SRhPLlLl i ddiffinio pwy yw'r Awdurdodau Rheoli Peryglon o fewn ardal leol, beth yw eu swyddogaeth a beth yw eu cyfrifoldebau. Bu'r SRhPLlLl yn destun i ymgynghoriad cyhoeddus.

Ym mis Tachwedd 2011, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru "Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu yng Nghymru". Mae'r ddogfen hon yn nodi pedwar Amcan Cyffredinol y mae'n rhaid rhoi sylw iddynt o fewn Strategaethau Lleol.

Y pedwar amcan cyffredinol yw:

- Lleihau'r canlyniadau i unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd o lifogydd ac erydu arfordirol,
- Codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl, a'u cynnwys wrth ymateb i berygl llifogydd ac erydu arfordirol
- Sicrhau ymateb effeithiol a chyson i lifogydd ac erydu arfordirol
- Blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sydd fwyaf mewn perygl.

### 4.1.8 Ein Hamcanion Rheoli Perygl Llifogydd Lleol

Mae'r canllawiau strategaeth, a gyhoeddwyd gan LlC ym mis Tachwedd 2011, yn cynnwys amcanion rheoli perygl llifogydd penodol yng nghyswllt risg cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Mae'r rhain fel y nodir isod:

- **Cymdeithasol**
  - Lleihau trallod (Nifer o bobl sydd mewn perygl o lifogydd)
  - Lleihau aflonyddwch cymunedol (Nifer yr eiddo preswyl a masnachol)
  - Lleihau'r perygl i fywyd (swyddogaeth y nifer o bobl sydd mewn perygl ac amodau'r llifogydd)
  - Lleihau'r amhariad ar seilwaith allweddol
- **Economaidd**
  - Lleihau difrod economaidd (e.e. Cyfartaledd Difrod Blynyddol - DBC)
  - Lleihau cost rheoli (nid yw'n ganlyniad rheoli risg i'w ddefnyddio mewn arfarniad)
- **Amgylcheddol**
  - Lleihau difrod i safleoedd Natura 2000/SoDdGA/CGB (neu wella safleoedd)
  - Gwella naturioldeb (lleihau addasiadau i sianeli/cyrff dŵr)

### 4.1.9 Is-amcanion Strategaeth Leol

O dan ein cyfrifoldeb a nodir yn DRhLlD, paratowyd SRhPLlLl, sy'n cefnogi'r Strategaeth Genedlaethol Peryglon Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Yn y Strategaeth, sefydlwyd protocol ynglŷn â sut y byddwn yn blaenoriaethu buddsoddiad i gyflawni'r Amcanion Cenedlaethol trosfwaol, a'n his-amcanion Strategaeth Leol.

Er mwyn gweithredu Amcanion y Strategaeth Genedlaethol, seiliodd Cyngor Caerdydd y Strategaeth Leol ar yr wyth is-amcan strategaeth leol ganlynol.

***Tabl 4-1 Ein Hamcanion Strategaeth Leol***

| **Prif Amcan y Strategaeth Genedlaethol** | **Is-amcanion y Strategaeth Leol**<br>**(rhifau cyfeirnodau yn berthnasol i'r Strategaeth Genedlaethol)** |
|---|---|
| **1 - Lleihau'r canlyniadau i unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd o lifogydd ac erydu arfordirol** | 2 - Darparu Arweinyddiaeth Strategol a Chyfeiriad ar lefel leol |
| | 3 - Datblygu polisïau ar gyfer rheoli defnydd tir yn effeithiol a gwell gweithdrefnau rheoli datblygiad lle bo hynny'n briodol |
| | 4 - Sefydlu amserlenni cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer asedau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol |
| **2 - Codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl, a'u cynnwys wrth ymateb i berygl llifogydd ac erydu arfordirol** | 5 - Erbyn 2026 sicrhau bod pawb sy'n byw mewn ardal perygl llifogydd yn deall y perygl o lifogydd y maent yn destun iddo, canlyniadau'r perygl hwnnw a sut i fyw gyda'r perygl |
| **3 - Sicrhau ymateb effeithiol a chyson i lifogydd ac erydu arfordirol** | 7 - Sicrhau bod Cynlluniau Argyfwng yn cael eu paratoi a rhoi prawf arnynt |
| | 8 - Ymateb i ddigwyddiadau mewn modd amserol a phriodol |
| | 9 - Hwyluso adferiad o lifogydd o fewn y terfynau amser byrraf posibl |
| **4 - Blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sydd fwyaf mewn perygl** | Lleol1 – Cyllido allanol |

Defnyddiwyd mesurau i weithredu'r is-amcanion, ac ystyriwyd y rhain yn erbyn tri opsiwn a oedd angen gwahanol lefelau o fuddsoddiad ac ymdrech i nodi'r dull a ffefrir;

- **Gwneud dim** – Rhoi'r gorau i unrhyw gamau gweithredu sydd eisoes yn bodoli a/neu gwariant cysylltiedig. Mae hyn yn rhoi gwaelodlin y gellir mesur yn ei erbyn unrhyw fudd y mae cynnydd mewn ymdrech yn ei roi,
- **Busnes fel arfer** – Mae hwn yn ystyried parhad yn y dyfodol o'r camau gweithredu presennol. Byddai lefelau gwariant yn cael eu cadw gyda'r siawns y gallai perygl llifogydd gynyddu yn y dyfodol o ganlyniad i ehangu pellach o'r ardal leol neu newid yn yr hinsawdd, a
- **Gwneud mwy** – Mae'r mesurau hyn yn nodi camau gweithredu newydd y gallai'r Cyngor, neu efallai y bydd rhaid i'r Cyngor, eu cymryd oherwydd dyletswyddau deddfwriaethol newydd. Gallai'r lefel uwch o ymdrech amrywio gan ddibynnu ar y math o fesur gweithredu a ystyrir, a'r budd ystyriol o ddarparu'r adnodd ychwanegol. Maent hefyd yn nodi camau y gellid eu cymryd petai cyllid pellach ar gael.

Ceir crynodeb o'r mesurau a weithredwyd o fewn y SRhPLlLl yn y tabl isod, a rhoddir crynodeb manwl o'r mesurau yn Atodiad C.

### *Tabl 4-2 Ein Mesurau Strategaeth Leol*

| Mesur SRhPLlLl | Dull a Ffefrir |
|---|---|
| Cyflwyno'r ail gylch o Gynlluniau Rheoli Traethlin erbyn 2012 gyda gweithredu cymesur yn ystod oes y Strategaeth | Busnes fel arfer |
| Datblygiad Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol | Busnes fel arfer |
| Gweithredu cyfrifoldebau statudol gan gynnwys y rhai a nodir yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a'r Rheoliadau Perygl Llifogydd | Busnes fel arfer |
| Mapio priodol o bob ffynhonnell o berygl | Busnes fel arfer |
| Gweithredu cymesur o'r Cynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd dros oes y Strategaeth | Gwneud mwy |
| Lleihad yn nifer yr eiddo a nodwyd mewn perygl o lifogydd o ffynonellau Perygl Llifogydd Lleol | Gwneud mwy |
| Cyswllt â gwaith ehangach a wneir o ran gwneud Caerdydd yn ardal fwy gwydn a chynaliadwy i fyw ynddi | Gwneud mwy |
| Lleihau atebolrwydd corfforaethol Cyngor Caerdydd sy'n ymwneud ag effaith perygl llifogydd (ac agweddau cysylltiedig megis newid yn yr hinsawdd) | Gwneud mwy |
| Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol i helpu i reoli perygl llifogydd | Gwneud mwy |
| Cydymffurfio â gofynion Polisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol perthnasol. | Busnes fel arfer |
| Ymgymryd yn briodol ag Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd a'u defnydd i hysbysu Cynlluniau Datblygu Lleol. | Busnes fel arfer |
| Cymeradwyo a mabwysiadu systemau draenio SuDS gan Gorff Cymeradwyo a Mabwysiadu SuDS. | Busnes fel arfer |
| Datblygu cofrestr o strwythurau neu nodweddion naturiol ac o waith dyn sy'n debygol o gael effaith ar berygl llifogydd erbyn 2015. | Gwneud mwy |
| Sefydlu rhaglen o waith cynnal a chadw rheolaidd a phriodol ar gyfer asedau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. | Gwneud mwy |
| Dynodi strwythurau neu nodweddion naturiol ac o waith dyn sy'n debygol o gael effaith ar berygl llifogydd neu erydu arfordirol dros oes y Strategaeth. | Gwneud mwy |
| Rhaglen ymwybyddiaeth yn y gymuned a gweithgareddau ymgysylltu, gan ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Gymuned Rheoli Perygl Llifogydd. | Gwneud mwy |
| Adnabod grwpiau sydd mewn perygl o fewn cymunedau, yn cynnwys unigolion sy'n agored i niwed. | Gwneud mwy |
| Codi ymwybyddiaeth yn fewnol o ran effaith perygl llifogydd ar weithrediadau arferol a sefyllfaoedd ar ôl digwyddiad | Gwneud mwy |
| Parhad ac ehangu Gwasanaeth Uniongyrchol Llinell Rhybuddion Llifogydd dros oes y Strategaeth | Busnes fel arfer |
| Cwblhau cynlluniau argyfwng ar gyfer pob ffynhonnell o berygl llifogydd. | Busnes fel arfer |
| Datblygu cynlluniau argyfwng lefel gymunedol fel sy'n ofynnol gan gymunedau | Busnes fel arfer |

| | |
|---|---|
| perthnasol | |
| **Mesur SRhPLILI** | **Dull a Ffefrir** |
| Ymarfer argyfwng Cymru gyfan i brofi trefniadau ymateb ac adfer erbyn 2016 | Busnes fel arfer |
| Ymarferion argyfwng ar lefel leol i brofi trefniadau ymateb ac adfer dros oes y Strategaeth. | Gwneud mwy |
| Ymateb cynnar a phriodol i ddigwyddiadau argyfwng ar gyfer bob digwyddiad. | Busnes fel arfer |
| Datblygu a gweithredu protocolau gwacáu effeithiol ar gyfer digwyddiadau argyfwng | Busnes fel arfer |
| Datblygu protocolau cyd-gymorth ar gyfer adnoddau, offer a seibiant ar gyfer digwyddiadau argyfwng. | Busnes fel arfer |
| Adnabod a darparu llety seibiant addas fel y bo'n briodol dros oes y Strategaeth. | Busnes fel arfer |
| Datblygu gweithdrefnau ar gyfer clirio malurion yn effeithiol. | Busnes fel arfer |
| Datblygu amserlenni atgyweirio gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gosod mesurau cadarn yn eu lle erbyn 2015. | Busnes fel arfer |
| Ymchwiliadau i achosion llifogydd i'w cynnal lle bo angen o fewn mis. | Gwneud mwy |
| Cynllun adfer ar ôl llifogydd yn ei le | Gwneud mwy |
| Cyfraniad cyllido gan drydydd parti / ffynonellau nad ydynt yn rhai cyhoeddus | Gwneud mwy |

## 4.2 Crynodeb o'r Broses i Ddethol a Blaenoriaethu Mesurau i Gyflawni'r Amcanion

Rydym yn ceisio blaenoriaethu ein buddsoddiad a'n mesurau er mwyn uchafu'r budd y gallwn ei gyflawni.

Mae'r mesurau a fabwysiadwyd yn ein SRhPLILI wedi cael eu hasesu er mwyn penderfynu pa rai o amcanion y strategaeth perygl llifogydd leol, a thrwy hynny'r strategaeth genedlaethol, y mae'n cyfrannu atynt. Cafodd y rhain eu pwysoli, yn seiliedig ar yr amserlenni gofynnol ar gyfer cyflawni, er mwyn rhoi 'sgôr blaenoriaeth' i nodi'r 3 chategori cyflenwi uchaf (grwpiau o fesurau tebyg).

Mae Tabl 4–3 yn nodi'r mesurau blaenoriaeth i Gyngor Caerdydd o dan y 3 chategori cyflenwi uchaf.

## 4.3 Sut yr ydym yn blaenoriaethu ein gwaith

Sefyllfa bresennol Cyngor Caerdydd yw y dylid rhoi blaenoriaeth i fesurau sydd yn;

- adeiladu cysylltiadau cryfach â rhanddeiliaid allweddol ac Awdurdodau Lleol cyfagos,
- parhau i adeiladu ar y gwaith a wnaed o ran cynllunio cydnerthu cymunedol,
- ymgorffori ymwybyddiaeth o fesurau lliniaru llifogydd ar draws holl swyddogaethau'r Cyngor,
- deall y risgiau erydu arfordirol yn llawn,
- codi ymwybyddiaeth ar draws holl gymunedau Caerdydd, gan ganolbwyntio'n arbennig ar y rhai sydd mewn perygl mwyaf o lifogydd a'r rhai sydd angen mwy o gefnogaeth fel cymunedau mewn sefyllfa economaidd-gymdeithasol isel a chymunedau sy'n agored i niwed, a
- lleihau canlyniadau llifogydd drwy adeiladu amddiffynfeydd cynaliadwy wedi'u cynllunio'n briodol sydd o fudd i'r amgylchedd lleol.

Daw'r tabl canlynol o'n SRhPLlLl, ac mae'n nodi'r camau rydym yn ceisio eu rhoi ar waith i reoli perygl llifogydd yng Nghaerdydd.

*Tabl 4–3 Mesurau Blaenoriaeth Strategaeth Llifogydd Lleol Caerdydd*

| Thema Cyflenwi | Math o weithgaredd | Mesur(au) a Awgrymir | Camau gweithredu Arfaethedig Cyngor Caerdydd | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Rhagweld ac Ymateb i Lifogydd** | Ymwybyddiaeth o Lifogydd | • Adnabod grwpiau sydd mewn perygl o fewn cymunedau, yn cynnwys unigolion sy'n agored i niwed. | • Trwy Gynllunio Argyfwng a Chyfathrebu Corfforaethol gallwn sicrhau fod busnesau yn ymwybodol o'r perygl, a'r camau y gallant eu cymryd i leihau'r effaith. | • Parhaus |
| | Cynlluniau Ymateb i Argyfwng | • Cwblhau cynlluniau argyfwng ar gyfer pob ffynhonnell o berygl llifogydd.<br>• Ymarferion argyfwng ar lefel leol i brofi trefniadau ymateb ac adfer dros oes y Strategaeth.<br>• Ymateb cynnar a phriodol i bob digwyddiad brys.<br>• Datblygu a gweithredu protocolau gwacáu effeithiol ar gyfer digwyddiadau argyfwng<br>• Adnabod a darparu llety seibiant addas fel y bo'n briodol dros oes y Strategaeth. | • Mae gennym drefn gynllunio argyfwng sefydledig ar waith ar gyfer argyfyngau mawr, gan gynnwys llifogydd.<br>• Adolygu o fewn 12 mis fod y newidiadau a nodwyd i'n cynllun yn eu lle ac y gellir adeiladu arnynt<br>• Parhau i brofi ac adolygu ein cynlluniau, a thrafod gydag awdurdodau lleol cyfagos o ran yr angen posibl am gyd-gefnogaeth pan fo angen<br>• Datblygu a gweithredu protocolau gwacáu effeithiol ar gyfer digwyddiadau argyfwng<br>• Parhau i brofi ac adolygu ein cynlluniau, a thrafod gydag awdurdodau lleol cyfagos o ran yr angen posibl am gyd-gefnogaeth pan fo angen | • Parhaus<br>• Adolygu Tach 2015<br>• Yn ei le ac yn destun i adolygu parhaus |
| | Cynlluniau Llifogydd Cymunedau | • Datblygu cynlluniau argyfwng lefel gymunedol fel sy'n ofynnol gan gymunedau perthnasol | • Parhau i weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd ar ddatblygu cynlluniau argyfwng ar lefel gymunedol | • Parhaus |
| **Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau** | Cynlluniau Rheoli Asedau | • Datblygu cofrestr o strwythurau neu nodweddion naturiol ac o waith dyn sy'n debygol o gael | • Datblygu cofrestr gychwynnol gan ddefnyddio meddalwedd sydd ar gael a diweddaru pan fo angen (dull goddefol). Defnyddio pwerau, a gorfodi lle bo angen i | • Cychwyn Ebrill 2014 |

| Thema Cyflenwi | Math o weithgaredd | Mesur(au) a Awgrymir | Camau gweithredu Arfaethedig Cyngor Caerdydd | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| ***Rheoli a Chynnal a Chadw Asedau (parhad)*** | | effaith ar berygl llifogydd erbyn 2014.<br><br>• Sefydlu rhaglen o waith cynnal a chadw rheolaidd a phriodol ar gyfer asedau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. | reoli risg<br>• Gweithredu system i sicrhau yr ystyrir agweddau draenio fel rhan o unrhyw gynnig sy'n effeithio ar y briffordd<br>• Adolygu a chadarnhau ffiniau diffiniedig dyfroedd arfordiol<br>• Cefnogi cynlluniau megis Project Grangetown Gwyrddach<br>• Darparu tystiolaeth i awdurdodau i fyny'r afon a thynnu sylw at y mater gweithredol er mwyn ceisio rheoli malurion yn eu ffynhonnell<br>• Adolygu opsiynau a chynnwys mewn Cynlluniau/ adolygiadau gofodol yn y dyfodol<br>• Draenio Priffyrdd - adolygu sut y trefnir gwaith a beth yw eu Canlyniad Cynlluniedig<br>• Draenio Tir - pennu lefel y gwasanaeth a chynnal a chadw angenrheidiol<br>• Cwrs Dŵr Cyffredin - clirio ceuffosydd mewn safleoedd blaenoriaeth, adolygu'r system er mwyn asesu a oes modd i hyn gael ei ddiweddaru<br>• Arfordirol - adolygiad risg posibl o erydiad<br>• Arfordirol - adolygiad risg posibl o erydiad, a gwneud y gwaith angenrheidiol<br>• Gweithredu CRhT2 - Sicrhau bod materion amgylcheddol yn cael eu hystyried wrth ddylunio / adeiladu amddiffynfeydd newydd. Sicrhau bod unrhyw waith yn cadw at ymarferion gwaith cytunedig e.e. i atal aflonyddu ar adar | |

| Thema Cyflenwi | Math o weithgaredd | Mesur(au) a Awgrymir | Camau gweithredu Arfaethedig Cyngor Caerdydd | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| | Rheoli Amddiffynfeydd/<br><br>Strwythurau | • Dynodi strwythurau neu nodweddion naturiol ac o waith dyn sy'n debygol o gael effaith ar berygl llifogydd neu erydu arfordirol dros oes y Strategaeth.<br>• Datblygu amserlenni atgyweirio gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gosod mesurau cadarn yn eu lle erbyn 2015. | • Ar hyn o bryd yn cynllunio sut y bydd y gofrestr yn cael ei datblygu gan weithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol eraill yn Ne-ddwyrain Cymru. Byddwn angen cyllideb ar gyfer arolygu parhaus a diweddaru'r gofrestr<br>• Datblygu amserlenni atgyweirio gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gosod mesurau cadarn yn eu lle erbyn 2015.<br>• Cynnal arolwg arfordir i asesu peryglon erydu i'n cymunedau arfordir.<br>• Archwilio cynlluniau amddiffyn ar gyfer ardaloedd Pen-y-lan, Waterloo Gardens y Ddinas gyda Chyfoeth Naturiol Cymru. | • Cychwyn 2014/2015 |
| | Cynnal a Chadw Sianeli | • Datblygu gweithdrefnau ar gyfer clirio malurion yn effeithiol. | • Datblygu gweithdrefnau | • Yn ei le ac yn destun i adolygu parhaus |
| | Cynnal a Chadw Ceuffosydd | • Sefydlu rhaglen o waith cynnal a chadw rheolaidd a phriodol ar gyfer asedau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. | • Cwrs Dŵr Cyffredin - clirio ceuffosydd mewn safleoedd blaenoriaeth, adolygu'r system er mwyn asesu a oes modd i hyn gael ei ddiweddaru | • Adolygu parhaus |

| Thema Cyflenwi | Math o weithgaredd | Mesur(au) a Awgrymir | Camau gweithredu Arfaethedig Cyngor Caerdydd | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ymwybyddiaeth ac Ymgysylltu Lefel Uchel** | Gweithio mewn partneriaeth | • Gweithredu cyfrifoldebau statudol gan gynnwys y rhai a nodir yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a'r Rheoliadau Perygl Llifogydd.<br>• Cyswllt â gwaith ehangach a wneir o ran gwneud Caerdydd yn ardal fwy gwydn a chynaliadwy i fyw ynddi<br>• Rhaglen ymwybyddiaeth yn y gymuned a gweithgareddau ymgysylltu, gan ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Gymuned Rheoli Perygl Llifogydd.<br>• Codi ymwybyddiaeth yn fewnol o ran effaith perygl llifogydd ar weithrediadau arferol a sefyllfaoedd ar ôl digwyddiad<br>• Cyfraniad cyllido gan drydydd parti / ffynonellau nad ydynt yn rhai cyhoeddus | • Rydym wedi cyflwyno ein ACBLI sy'n nodi'r ardaloedd risg allweddol.<br>• Bydd camau gweithredu pellach a nodwyd o fewn y SRhPLILI yn ein helpu i barhau i gyflawni'r amcan hwn<br>• Sicrhau bod camau gweithredu yn cael eu dal sy'n darparu synergedd ar draws gwahanol gynlluniau i gyflenwi Caerdydd mwy gwydn.<br>• Cefnogi CNC a chanfasio ymwybyddiaeth ac adborth gan drigolion eu bod yn ymwybodol o'u lefel o berygl llifogydd drwy holiadur blynyddol "Holi Caerdydd".<br>• Trafod gyda'r corff sy'n cynrychioli'r diwydiant yswiriant o ran y cyfleoedd sydd ar gael i reoli perygl llifogydd er mwyn sicrhau fod yswiriant yn parhau i fod yn fforddiadwy ar draws y sir<br>• Datblygu Polisi ar gyfer adfer / derbyn cyfraniadau ariannol naill ai'n uniongyrchol drwy Ardoll Seilwaith Cymunedol, neu adennill drwy ardoll cyfradd y dyfodol gyda gwarantau datblygwr (TIF ayb) | • Mapiau Risg Llifogydd erbyn Rhag 2013<br>• Cynlluniau Lleol Rheoli Perygl Llifogydd erbyn Rhag 2015<br>• Parhaus<br>• Camau gweithredu cynlluniedig yn dilyn ymateb i'r ymgynghoriad<br>• Cychwyn Ebrill 2013 |

## 4.4 Gyda phwy y gweithiwn i reoli perygl llifogydd yng Nghaerdydd

Mae'n bwysig nodi gwahanol swyddogaethau a chyfrifoldebau'r Cyngor a'r partïon allweddol niferus sy'n cyfrannu at reoli peryglon llifogydd yng Nghaerdydd. Gelwir y cyrff mwy ffurfiol a statudol yn ARhPau. Ceir manylion cyswllt ar gyfer yr ARhPau yn **Error! Reference source not found.**.

Efallai bod gan y cyrff hynny sydd â rôl statudol i gefnogi rheoli perygl llifogydd yng Nghaerdydd ac sydd â rôl bwysig i'w chwarae yng ngwaith llifogydd Caerdydd hefyd gyfrifoldebau mewn meysydd Rheoli Perygl Llifogydd Lleol eraill. Efallai hefyd bod ganddynt wahanol swyddogaethau, rolau, dyletswyddau a chyfrifoldebau mewn meysydd eraill (e.e. pysgodfeydd, rheoli gwastraff neu fioamrywiaeth).

***Ffigwr 4–2 Awdurdodau Rheoli Perygl Llifogydd***




Er <u>nad</u> yw Llywodraeth Cymru yn ARhP, mae ganddi gyfrifoldebau eang mewn perthynas â llifogydd ac erydu arfordirol:

- Cyfrifoldeb cyffredinol am yr holl faterion sy'n ymwneud â llifogydd ac erydu arfordirol,
- Gosod polisi cenedlaethol,
- Datblygu Strategaeth Genedlaethol llifogydd ac erydiad,
- Creu deddfwriaeth,
- Darparu'r rhan fwyaf o arian y sector cyhoeddus, a

- Phenderfynu pa gamau (os o gwbl) y dylid eu cymryd os na fydd y Strategaeth Genedlaethol yn cael ei gweithredu, neu os yw'r gweithrediadau'n cynyddu lefelau o berygl llifogydd ac erydiad.

## 4.5 Sut y cydlynwyd y CRhPLl hwn

Llwyddwyd i gydlynu a datblygu'r CRhPLl hwn drwy gyfarfodydd rheolaidd y gwahanol grwpiau a restrir isod:

- Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd De a Dwyrain Cymru a fynychwyd gan bob ALlLlA yn Ne Cymru, CNC, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a DC/WW,
- Gweithgor Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd a fynychwyd gan bob ALlLlA yn Ne Ddwyrain Cymru, LlC, CNC a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ac
- Adrannau mewnol Cyngor Caerdydd

# 5 Sut y rheolwn berygl llifogydd ar lefel leol

Nid yw rheoli perygl llifogydd yn beth newydd i Gaerdydd ac mae gwaith wedi bod ar y gweill ers nifer o flynyddoedd er mwyn atal, paratoi a lleihau tebygolrwydd a chanlyniadau llifogydd. Gall gwaith lliniaru llifogydd gymryd dwy ffurf wahanol; strwythurol a heb fod yn strwythurol:

- Strwythurol – sef newidiadau seilwaith; strwythurau ffisegol; amddiffynfeydd arfordirol sy'n helpu i gadw, sianelu neu atal symudiad dŵr.
- Heb fod yn Strwythurol - sef mwy addysgiadol neu lai amlwg fel codi ymwybyddiaeth, cynllunio argyfwng, rheolaethau cynllunio, tirlunio cydymdeimladol neu wneud defnydd o ddulliau draenio cynaliadwy (SuDs).

Defnyddiwyd y ddau ddull gan Gaerdydd.

### 5.1.1 Mesur CRhPLlau

Mae'r mesurau a nodwyd yn SRhPLlLl Cyngor Dinas Caerdydd wedi cael eu mabwysiadu yn y CRhPLl hwn er mwyn rheoli perygl llifogydd o fewn yr awdurdod.

### 5.1.2 Mesur Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

Yn ôl Mesur Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, mae'n ofynnol rhoi sylw i'r buddiannau ehangach, tymor hwy y gellir eu cyflenwi. Er mwyn helpu i weithredu etifeddiaeth y Mesur, ystyriwyd sut mae'r mesurau a fabwysiadwyd yn y CRhPLl hwn yn helpu i gyflawni amcanion y LlCD:

- Cymru lewyrchus;
- Cymru gydnerth;
- Cymru iachach;
- Cymru fwy cyfartal;
- Cymru o gymunedau cydlynus;
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu; a
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang.

Cyflwynir isod dabl sy'n rhoi crynodeb o'r mesurau a fabwysiadwyd yn y CRhPLl hwn a'u potensial i gyflwyno Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

***Tabl 5-1 Crynodeb o fesurau a fabwysiadwyd i'r CRhPLl hwn***

| | | | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prif Amcan** | **Is Amcan** | **Mesur** | **Cymru lewyrchus** | **Cymru gydnerth** | **Cymru iachach** | **Cymru fwy cyfartal** | **Cymru o gymunedau cydlynus** | **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** |
| **1 - Lleihau'r canlyniadau i unigolion, cymunedau, busnesau a'r amgylchedd o lifogydd ac erydu arfordirol** | **2 - Darparu Arweinyddiaeth Strategol a Chyfeiriad ar lefel leol** | Cyflwyno'r ail gylch o Gynlluniau Rheoli Traethlin erbyn 2012 gyda gweithredu cymesur yn ystod oes y Strategaeth | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | Datblygiad Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol. | | | | | | | |
| | | Gweithredu cyfrifoldebau statudol gan gynnwys y rhai a nodir yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a'r Rheoliadau Perygl Llifogydd. | | | | | | | |
| | | Mapio priodol o bob ffynhonnell o berygl llifogydd. | | | | | | | |
| | | Gweithredu cymesur o'r Cynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd dros oes y Strategaeth. | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | Lleihad yn nifer yr eiddo a nodwyd mewn perygl o lifogydd o ffynonellau Perygl Llifogydd Lleol | | | | | | | |
| | | Cyswllt â gwaith ehangach a wneir o ran gwneud Caerdydd yn ardal fwy gwydn a chynaliadwy i fyw ynddi | | | | | | | |
| | | Lleihau atebolrwydd corfforaethol Cyngor Caerdydd sy'n ymwneud ag effaith perygl llifogydd (ac agweddau cysylltiedig megis newid yn yr hinsawdd) | | | | | | | |
| | **3 - Datblygu polisïau ar gyfer rheoli defnydd tir yn effeithiol a gwell gweithdrefnau rheoli datblygiad lle bo hynny'n briodol** | Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol i helpu i reoli perygl llifogydd | | | | | | | |

| | | | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prif Amcan** | **Is Amcan** | **Mesur** | **Cymru lewyrchus** | **Cymru gydnerth** | **Cymru iachach** | **Cymru fwy cyfartal** | **Cymru o gymunedau cydlynus** | **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** |
| | | Cydymffurfio â gofynion Polisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol perthnasol. | | | | | | | |
| | | Ymgymryd yn briodol ag Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd a'u defnydd i hysbysu Cynlluniau Datblygu Lleol. | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | Cymeradwyo a mabwysiadu systemau draenio SuDS gan Gorff Cymeradwyo a Mabwysiadu SuDS. | | | | | | | |
| | **4 - Sefydlu amserlenni cynnal a chadw rheolaidd ar gyfer asedau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol** | Datblygu cofrestr o strwythurau neu nodweddion naturiol ac o waith dyn sy'n debygol o gael effaith ar berygl llifogydd erbyn 2015. | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | Sefydlu rhaglen o waith cynnal a chadw rheolaidd a phriodol ar gyfer asedau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |

| | | | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prif Amcan** | **Is Amcan** | **Mesur** | **Cymru lewyrchus** | **Cymru gydnerth** | **Cymru iachach** | **Cymru fwy cyfartal** | **Cymru o gymunedau cydlynus** | **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | Dynodi strwythurau neu nodweddion naturiol ac o waith dyn sy'n debygol o gael effaith ar berygl llifogydd neu erydu arfordirol dros oes y Strategaeth. | | | | | | | |
| **2 - Codi ymwybyddiaeth ymhlith pobl, a'u cynnwys wrth ymateb i berygl llifogydd ac erydu arfordirol** | **5 - Erbyn 2026 sicrhau bod pawb sy'n byw mewn ardal perygl llifogydd yn deall y perygl o lifogydd y maent yn destun iddo, canlyniadau'r perygl hwnnw a sut i fyw gyda'r perygl** | Rhaglen ymwybyddiaeth yn y gymuned a gweithgareddau ymgysylltu, gan ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Gymuned Rheoli Perygl Llifogydd. | | | | | | | |
| | | Adnabod grwpiau sydd mewn perygl o fewn cymunedau, yn cynnwys unigolion sy'n agored i niwed. | | | | | | | |
| | | Codi ymwybyddiaeth yn fewnol o ran effaith perygl llifogydd ar weithrediadau arferol a sefyllfaoedd ar ôl digwyddiad | | | | | | | |
| | | Parhad ac ehangu Gwasanaeth Uniongyrchol Llinell Rhybuddion Llifogydd dros oes y Strategaeth | | | | | | | |
| **3 - Sicrhau ymateb effeithiol a chyson i lifogydd ac erydu arfordirol** | **7 - Sicrhau bod Cynlluniau Argyfwng yn cael eu paratoi a rhoi prawf arnynt** | Cwblhau cynlluniau argyfwng ar gyfer pob ffynhonnell o berygl llifogydd. | | | | | | | |
| | | Datblygu cynlluniau argyfwng lefel gymunedol fel sy'n ofynnol gan gymunedau perthnasol | | | | | | | |
| | | Ymarfer argyfwng Cymru gyfan i brofi trefniadau ymateb ac adfer erbyn 2016 | | | | | | | |
| | | Ymarferion argyfwng ar lefel leol i brofi trefniadau ymateb ac adfer dros oes y Strategaeth. | | | | | | | |

| | | | Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prif Amcan** | **Is Amcan** | **Mesur** | **Cymru lewyrchus** | **Cymru gydnerth** | **Cymru iachach** | **Cymru fwy cyfartal** | **Cymru o gymunedau cydlynus** | **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu** | **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang** |
| | **8 - Ymateb i ddigwyddiadau mewn modd amserol a phriodol** | Ymateb cynnar a phriodol i ddigwyddiadau argyfwng ar gyfer bob digwyddiad. | | | | | | | |
| | | Datblygu a gweithredu protocolau gwacáu effeithiol ar gyfer digwyddiadau argyfwng | | | | | | | |
| | | Datblygu protocolau cyd-gymorth ar gyfer adnoddau, offer a seibiant ar gyfer digwyddiadau argyfwng. | | | | | | | |
| | | Adnabod a darparu llety seibiant addas fel y bo'n briodol dros oes y Strategaeth. | | | | | | | |
| | **9 - Hwyluso adferiad o lifogydd o fewn y terfynau amser byrraf posibl** | Datblygu gweithdrefnau ar gyfer clirio malurion yn effeithiol. | | | | | | | |
| | | Datblygu amserlenni atgyweirio gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gosod mesurau cadarn yn eu lle erbyn 2015. | | | | | | | |
| | | Ymchwiliadau i achosion llifogydd i'w cynnal lle bo angen o fewn mis. | | | | | | | |
| | | Cynllun adfer ar ôl llifogydd yn ei le | | | | | | | |
| **4 - Blaenoriaethu buddsoddiad yn y cymunedau sydd fwyaf mewn perygl** | **Lleol 1 - Cyllido allanol** | Cyfraniad cyllido gan drydydd parti / ffynonellau nad ydynt yn rhai cyhoeddus | | | | | | | |

## 5.2 Sgrinio Amgylcheddol Strategol

Eisoes cwblhawyd Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS) i gyd-fynd â gweithredu’r amcanion a'r mesurau a nodwyd yn y SRhPLlLl.

Nododd yr AAS effeithiau amgylcheddol posibl a grëwyd yn sgil gweithrediad y SRhPLlLl. Fel y nodir yn Adran 5.1.1 o'r ddogfen hon, mae'r mesurau a roddwyd ar waith yn y Strategaeth leol ar gyfer rheoli perygl llifogydd eisoes wedi cael eu mabwysiadu yn y CRhPLl er mwyn helpu i reoli'r perygl o lifogydd. Yn dilyn adolygiad o'r mesurau a weithredwyd yn y CRhPLl, ystyrir bod y mesurau yr un fath â'r SRhPLlLl, ac ni fu unrhyw newid i dderbynyddion o fewn yr awdurdod.

I gloi, ystyrir bod yr AAS blaenorol a wnaed ar gyfer y SRhPLlLl yn dal yn berthnasol ac nid oes angen gwneud Asesiad Amgylcheddol Strategol newydd.

Lle bo’n benodol i safle, ymgymerir ag ymyriad ffisegol, a chwblheir Asesiad Effaith Amgylcheddol i ategu’r gwaith. Bydd hyn yn sicrhau na fydd unrhyw waith yn cael effaith andwyol ar yr amgylchedd.

## 5.3 Mesurau a Chodau Adrodd UE Cynlluniau Rheoli Perygl Llifogydd

Er mwyn caniatáu adrodd yn ôl yn hwylus i'r Undeb Ewropeaidd, rydym wedi alinio ein mesurau arfaethedig â'r rhai a gynhwysir yn y data adrodd, fel y nodir isod. Mae'r mesurau wedi eu grwpio i bedair thema; Atal, Diogelu, Parodrwydd, Adfer.

**Atal:** drwy osgoi rhoi pobl neu'r amgylchedd mewn perygl o lifogydd, er enghraifft, un ffordd o atal peryglon fyddai trwy beidio ag adeiladu cartrefi mewn ardaloedd a allai ddioddef llifogydd.
**Paratoi:** drwy gymryd camau i baratoi pobl ar gyfer llifogydd, er enghraifft, drwy wella ymwybyddiaeth o berygl llifogydd, neu drwy roi rhybudd a rhagolygon ar gyfer llifogydd fel y gall pobl gymryd camau i ddiogelu eu pethau gwerthfawr.
**Diogelu:** trwy ddiogelu pobl rhag y perygl o lifogydd. Er enghraifft, trwy gynnal a chadw neu adnewyddu amddiffynfeydd presennol neu ddefnyddio byrddau gwrth-ddŵr dros ddrysau a brics aer, gall pobl amddiffyn eu heiddo rhag y difrod a achosir gan ddŵr llifogydd.
**Adfer ac adolygu:** trwy ddysgu o lifogydd sydd wedi digwydd a sut i wella ar eu hôl, er enghraifft, drwy wella argaeledd gwasanaethau adfer fel darparu llety dros dro ar ôl llifogydd.

Dengys Tabl 5-2 y pedair agwedd a chodau adrodd yr Undeb Ewropeaidd.

Gall y rhain gael eu croesgyfeirio i ddangos sut y byddant yn helpu i wireddu’r amcanion cyffredinol a nodir yn y SRhPLlLl, fel y crynhoir yn Nhabl 5-3.

*Tabl 5-2 Codau Adrodd UE*

| Codau Adrodd UE | Disgrifiad Adrodd yr UE |
|---|---|
| M1 **Gweithredu** | |
| M11 | Ni chynigir unrhyw fesur i leihau perygl llifogydd yn yr APSFR neu ardal ddiffiniedig arall |

| Codau Adrodd UE | Disgrifiad Adrodd yr UE |
|---|---|
| M2 **Atal** | |
| M21 | Osgoi, mesurau i atal lleoli derbynyddion newydd neu ychwanegol mewn ardaloedd sy'n dueddol i ddioddef llifogydd, megis polisïau cynllunio neu reoleiddio defnydd tir |
| M22 | Symud neu adleoli, mesurau i gael gwared â derbynyddion o ardaloedd sy'n dueddol o ddioddef llifogydd, neu i adleoli derbynyddion i ardaloedd o debygolrwydd is o lifogydd a/neu o berygl is |
| M23 | Lleihau, mesurau i addasu derbynyddion i leihau'r canlyniadau andwyol petai digwyddiad llifogydd neu adeiladau, rhwydweithiau cyhoeddus, ayb. |
| M24 | Atal Arall, mesurau eraill i wella atal risg llifogydd (gall gynnwys modelu ac asesu perygl llifogydd, asesiad perygl mawr o lifogydd, rhaglenni cynnal a chadw neu bolisïau ayb.) |
| M3 **Diogelu** | |
| M31 | Rheoli llifogydd / dŵr ffo naturiol a rheoli dalgylchoedd, Mesurau i leihau'r llif i systemau draenio naturiol neu artiffisial, megis atalwyr llif dros y tir a/neu storio, gwella ymdreiddiad, ayb. gan gynnwys gweithiau mewn-sianel gorlifdir ac ailgoedwigo glannau afonydd, gan adfer systemau naturiol i helpu arafu llif a storio dŵr. |
| **Codau Adrodd UE** | **Disgrifiad Adrodd yr UE** |
| M32 | Rheoleiddio llif dŵr, Mesurau sy'n cynnwys ymyriad ffisegol i reoleiddio llif, megis addasu adeiladu neu gael gwared â strwythurau cadw dŵr (e.e. argaeau neu ardaloedd storio ar-lein arall neu ddatblygu rheolau rheoleiddio llif presennol sy'n cael effaith sylweddol ar y drefn hydrolegol.) |
| M33 | Gwaith sianeli, arfordirol a gorlifdir, Mesurau sy'n cynnwys ymyraethau ffisegol i sianeli dŵr croyw, aberoedd nentydd mynydd dyfroedd arfordirol ac ardaloedd sy'n dueddol o ddioddef llifogydd o dir, fel adeiladu, addasu neu dynnu ymaith strwythurau neu newid sianeli, rheoli dynameg gwaddod, morgloddiau ayb |
| M34 | Rheoli dŵr wyneb, mesurau sy'n ymwneud ag ymyraethau ffisegol i leihau llifogydd dŵr wyneb, fel arfer, ond nid yn unig, mewn amgylchedd trefol, megis gwella capasiti draenio artiffisial neu drwy systemau draenio cynaliadwy (SuDS). |
| M35 | Amddiffynfeydd eraill, mesurau eraill i wella diogelwch rhag llifogydd, a all gynnwys rhaglenni neu bolisïau cynnal a chadw asedau amddiffynfeydd rhag llifogydd. |
| M4 **Parodrwydd** | |
| M41 | Rhagolygon a Rhybudd llifogydd, Mesurau i sefydlu neu wella rhagolygon llifogydd neu system rybuddio |
| M42 | Cynllunio ymateb Digwyddiad Argyfwng, cynllunio wrth gefn, mesurau i sefydlu neu wella Cynllunio ymateb argyfwng sefydliadol i lifogydd. |
| M43 | Ymwybyddiaeth a pharodrwydd y cyhoedd, mesurau i sefydlu ymwybyddiaeth y cyhoedd neu barodrwydd ar gyfer llifogydd |
| M44 | Parodrwydd arall, mesurau eraill i sefydlu neu wella parodrwydd ar gyfer digwyddiadau llifogydd i leihau'r canlyniadau andwyol. |

| **Codau Adrodd UE** | **Disgrifiad Adrodd yr UE** |
|---|---|
| M5 **Adfer ac Adolygu** | |
| M51 | (Mae'r cam cynllunio ar gyfer adferiad ac adolygu, mewn egwyddor, yn rhan o barodrwydd), adfer unigol a chymdeithasol, glanhau a gweithgareddau adfer (adeiladau, seilwaith, ayb) camau i gefnogi iechyd ac iechyd meddwl, gan gynnwys rheoli straen, cymorth ariannol trychineb (grantiau, treth ) gan gynnwys cymorth cyfreithiol trychineb, cymorth diweithdra trychineb, ail-leoli dros dro neu barhaol, arall |
| M52 | Adferiad Amgylcheddol, glanhau a gweithgareddau adfer (gyda nifer o is bynciau fel amddiffyn rhag llwydni, diogelwch dŵr ffynnon, a sicrhau cynwysyddion deunydd peryglus) |
| M53 | Arall, adfer ac adolygu arall, gwersi a ddysgwyd o bolisïau yswiriant llifogydd. |
| M6 **Arall** | |
| M61 | Arall |

***Tabl 5-3 Crynodeb o Fesurau CRhPLl Cyngor Caerdydd a chodau adrodd UE a briodolir***

| Mesur | Codau Adrodd UE |
|---|---|
| Cyflwyno'r ail gylch o Gynlluniau Rheoli Traethlin erbyn 2012 gyda gweithredu cymesur yn ystod oes y Strategaeth | M44 - Parodrwydd |
| Datblygiad Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol | M44 - Parodrwydd |
| Gweithredu cyfrifoldebau statudol gan gynnwys y rhai a nodir yn Neddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 a'r Rheoliadau Perygl Llifogydd | M32 - Diogelu |
| Mapio priodol o bob ffynhonnell o berygl | M22 - Atal |
| Gweithredu cymesur o'r Cynlluniau Dalgylch ar gyfer Rheoli Llifogydd dros oes y Strategaeth | M44 - Parodrwydd |
| Lleihad yn nifer yr eiddo a nodwyd mewn perygl o lifogydd o ffynonellau Perygl Llifogydd Lleol | M22 – Atal |
| Cyswllt â gwaith ehangach a wneir o ran gwneud Caerdydd yn ardal fwy gwydn a chynaliadwy i fyw ynddi | M21 – Atal |
| Lleihau atebolrwydd corfforaethol Cyngor Caerdydd sy'n ymwneud ag effaith perygl llifogydd (ac agweddau cysylltiedig megis newid yn yr hinsawdd) | M21 – Atal |
| Paratoi Canllawiau Cynllunio Atodol i helpu i reoli perygl llifogydd | M21 – Atal |
| Cydymffurfio â gofynion Polisi Cynllunio Cymru a'r Nodiadau Cyngor Technegol perthnasol. | M21 – Atal |
| Ymgymryd yn briodol ag Asesiadau Strategol o Ganlyniadau Llifogydd a'u defnydd i hysbysu Cynlluniau Datblygu Lleol. | M21 – Atal |
| Cymeradwyo a mabwysiadu systemau draenio SuDS gan Gorff Cymeradwyo a Mabwysiadu SuDS. | M34 – Diogelu |
| Datblygu cofrestr o strwythurau neu nodweddion naturiol ac o waith dyn sy'n debygol o gael effaith ar berygl llifogydd erbyn 2015. | M24 – Atal |
| Sefydlu rhaglen o waith cynnal a chadw rheolaidd a phriodol ar gyfer asedau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol. | M24 – Atal |
| Dynodi strwythurau neu nodweddion naturiol ac o waith dyn sy'n debygol o gael effaith ar berygl llifogydd neu erydu arfordirol dros oes y Strategaeth. | M32 – Diogelu |
| Rhaglen ymwybyddiaeth yn y gymuned a gweithgareddau ymgysylltu, gan ddefnyddio'r Pecyn Cymorth Ymgysylltu â'r Gymuned Rheoli Perygl Llifogydd. | M43 - Parodrwydd |
| Adnabod grwpiau sydd mewn perygl o fewn cymunedau, yn cynnwys unigolion sy'n agored i niwed. | M43 - Parodrwydd |

| Mesur | Codau Adrodd UE |
|---|---|
| Codi ymwybyddiaeth yn fewnol o ran effaith perygl llifogydd ar weithrediadau arferol a sefyllfaoedd ar ôl digwyddiad | M42 - Parodrwydd |
| Parhad ac ehangu Gwasanaeth Uniongyrchol Llinell Rhybuddion Llifogydd dros oes y Strategaeth | M41 - Parodrwydd |
| Cwblhau cynlluniau argyfwng ar gyfer pob ffynhonnell o berygl llifogydd. | M42 -Parodrwydd |
| Datblygu cynlluniau argyfwng lefel gymunedol fel sy'n ofynnol gan gymunedau perthnasol | M42 – Parodrwydd |
| Ymarfer argyfwng Cymru gyfan i brofi trefniadau ymateb ac adfer erbyn 2016 | M42 - Parodrwydd |
| Ymarferion argyfwng ar lefel leol i brofi trefniadau ymateb ac adfer dros oes y Strategaeth. | M42 - Parodrwydd |
| Ymateb cynnar a phriodol i ddigwyddiadau argyfwng ar gyfer bob digwyddiad. | M42 - Parodrwydd |
| Datblygu a gweithredu protocolau gwacáu effeithiol ar gyfer digwyddiadau argyfwng | M42 - Parodrwydd |
| Datblygu protocolau cyd-gymorth ar gyfer adnoddau, offer a seibiant ar gyfer digwyddiadau argyfwng. | M42 - Parodrwydd |
| Adnabod a darparu llety seibiant addas fel y bo'n briodol dros oes y Strategaeth. | M42 - Parodrwydd |
| Datblygu gweithdrefnau ar gyfer clirio malurion yn effeithiol. | M24 - Atal |
| Datblygu amserlenni atgyweirio gan gynnwys darpariaeth ar gyfer gosod mesurau cadarn yn eu lle erbyn 2015. | M24 – Atal |
| Ymchwiliadau i achosion llifogydd i'w cynnal lle bo angen o fewn mis. | M24 – Atal |
| Cynllun adfer ar ôl llifogydd yn ei le | M52 – Adfer ac Adolygu |
| Cyfraniad cyllido gan drydydd parti / ffynonellau nad ydynt yn rhai cyhoeddus | M61 - Arall |

# 6 Cydlynu gyda Chynllun Rheoli Basn Afon Hafren

## 6.1 Cyffredinol

Mae'r Gyfarwyddeb Llifogydd Ewropeaidd (Cyfarwyddeb 2007/60/EC[8]) yn amcanu at ddarparu dull cyson o reoli perygl llifogydd ar draws Ewrop. Gweithredir y Gyfarwyddeb yn y DU drwy Reoliadau Perygl Llifogydd 2009.

Mae'r Rheoliadau Perygl Llifogydd yn gosod dyletswydd ar CNC y bydd, erbyn Rhagfyr 2015, wedi cynhyrchu CRhPLlau ar gyfer Cymru gyfan, yn cynnwys y perygl o lifogydd o brif afonydd, y môr a chronfeydd dŵr ar raddfa Ardal Basn Afon (ABA). Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn cyflawni'r un swyddogaeth yn Lloegr a byddant yn gweithio gyda'i gilydd fel partneriaid i ymdrin ag ardaloedd trawsffiniol. Golyga hyn y bydd CNC yn cynhyrchu CRhPLlau sy'n cynnwys perygl llifogydd o brif afonydd, cronfeydd dŵr a'r môr ar gyfer ABA Hafren, Dyfrdwy a Gorllewin Cymru (gan weithio gydag Asiantaeth yr Amgylchedd o ran CRhPLlau trawsffiniol Hafren a Dyfrdwy).

O dan Reoliadau Perygl Llifogydd, yr ALlLlAau sy'n gyfrifol am gynhyrchu CRhPLlau ar gyfer 'Ardaloedd Perygl Llifogydd', sef yr ardaloedd a nodwyd yn yr ACBLl a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2011. Mae'r ardaloedd hyn yn cynnwys yr ardal a nodwyd ar gyfer Caerdydd.

Mae Caerdydd yn rhan ddeheuol Dalgylch Cymoedd De Ddwyrain Basn Afon Hafren.

## 6.2 Trosolwg o Ardal Basn Afon Hafren


Mae'r Ardal Basn Afon Hafren yn gartref i dros 5.3 miliwn o bobl ac yn cynnwys ardal o 21,590 km$^{2}$, gyda tua thraean o'r ardal yng Nghymru. Afon Hafren yw'r afon hiraf ym Mhrydain ac mae'n llifo i mewn i Aber Afon Hafren. Yn ogystal ag Afon Hafren a'i phrif lednentydd, mae'r ardal yn cynnwys afonydd De-ddwyrain Cymru, gan gynnwys afonydd Gwy, Wysg a Thaf, a rhai o siroedd Avon a Gwlad yr Haf sy'n draenio i Aber Hafren.

Mae nifer o ganolfannau trefol mawr yn y rhanbarth, gan gynnwys Bryste, Caerdydd a Coventry. Fodd bynnag, mae llawer o'r ardal basn afon yn wledig o ran ei chymeriad, yn enwedig o fewn Gororau Cymru. Rheolir tua 80% o'r tir at ddibenion amaethyddiaeth a choedwigaeth. Y sectorau economaidd allweddol yn yr ardal yw gwasanaethau busnes, cyfanwerthu a dosbarthu, gweinyddiaeth gyhoeddus ac iechyd. Hefyd mae cyfarpar trafnidiaeth a gweithgynhyrchu metel yn sectorau diwydiannol pwysig.

---

[8] Cyfarwyddeb 2007/60/EC http://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX:32007L0060

*Ffigwr 6–1 Dalgylch Rheoli Ardal Basn Afon*




## 6.3 Crynodeb o gydlynu datblygiad a gweithrediad gyda'r Cynllun Rheoli Basn Afon

Cyhoeddwyd Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren drafft, a baratowyd ar y cyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd a CNC fel un o ofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr, ar wefan CNC ar 10 Hydref 2014.

Fel rhan o ddatblygiad y CRhBA, cwblhaodd CNC broses ymgynghori o Hydref 2014 hyd at Ebrill 2015, gan gynnwys darparu holiadur. Mae'r Cynlluniau Rheoli Basnau Afonydd drafft ar gael ar wefan Cyfoeth Naturiol Cymru.

Rydym wedi archwilio'r amcanion a'r mesurau a gynigir yn y CRhBA, a thrwy weithgor ALlLlA, aliniwyd y mesurau arfaethedig i fod yn gyson ar lefel ALlLlA. Wrth i'r ymgynghoriad barhau, rhagwelir y bydd mesurau a chysylltiadau ychwanegol yn cael eu nodi, gan gryfhau'r cyswllt rhwng y CRhPLl hwn a'r CRhBA.

***Tabl 6-1 Crynodeb o Fesurau Rheoli Basn Afon Hafren***

| Rhestr lawn o’r categoriau mesur a gynhwyswyd yn CRhBA Afon Hafren | Mesur Cysylltiedig CRhPLl |
|---|---|
| **Diwygiad Ffisegol** | |
| Tynnu neu ryddhau rhwystrau i fudo pysgod | *Dim mesur cysylltiedig arfaethedig* |
| Tynnu neu addasu strwythur peirianyddol | *Dim mesur cysylltiedig arfaethedig* |
| Gwella cyflwr sianel/gwely a/neu lannau/traethlin | *Dim mesur cysylltiedig arfaethedig* |
| Gwella cyflwr parth y glannau a/neu gynefinoedd gwlyptir | *Dim mesur cysylltiedig arfaethedig* |
| Newid i weithrediadau a chynnal a chadw | Sefydlu rhaglen gynnal a chadw ar gyfer asedau llifogydd ac arfordirol |
| Rheoli llystyfiant | Cyswllt gyda gwaith ehangach i wneud Caerdydd yn ddinas fwy cynaliadwy |
| **Llygredd o ddŵr gwastraff** | |
| Lleihau llygredd tarddle yn ei ffynhonnell | Mabwysiadu systemau draenio SuDS gan gorff cymeradwyo SuDS. |
| Lleihau llwybrau tarddle (h.y. rheoli mynediad i’r amgylchedd dŵr) | Mabwysiadu systemau draenio SuDS gan gorff cymeradwyo SuDS. |
| Lliniaru/adfer effeithiau tarddle ar y derbynnydd | Mabwysiadu systemau draenio SuDS gan gorff cymeradwyo SuDS. |
| **Llygredd o drefi, dinasoedd a thrafnidiaeth** | |
| Lleihau llygredd gwasgaredig yn y tarddle | Mabwysiadu systemau draenio SuDS gan gorff cymeradwyo SuDS. |
| Lleihau llwybrau llygredd gwasgaredig (h.y. rheoli mynediad i’r amgylchedd dŵr) | Mabwysiadu systemau draenio SuDS gan gorff cymeradwyo SuDS. |
| Lliniaru / adfer effeithiau llygredd gwasgaredig ar dderbynnydd | Mabwysiadu systemau draenio SuDS gan gorff cymeradwyo SuDS. |
| **Newidiadau i lefel naturiol a llif y dŵr** | |
| Defnyddio ffynhonnell arall / adleoli tynnu neu ryddhau | Mabwysiadu systemau draenio SuDS gan gorff cymeradwyo SuDS. |
| Rheoli’r Galw am Ddŵr | *Dim mesur cysylltiedig arfaethedig* |
| Rheoli patrwm/ amseru echdynnu | *Dim mesur cysylltiedig arfaethedig* |
| Gwella cyflwr sianel / gwely a/neu lannau / traethlin | Lleihad yn nifer yr eiddo a nodwyd mewn perygl o lifogydd |
| **Rheoli rhywogaethau anfrodorol goresgynnol** | |
| Rhwystro eu cyflwyniad | *Dim mesur cysylltiedig arfaethedig* |
| Canfod yn gynnar, monitro ac ymateb cyflym (i leihau’r risg o sefydlu) | *Dim mesur cysylltiedig arfaethedig* |
| Lliniaru, rheoli a dileu (i leihau lledaenu) | *Dim mesur cysylltiedig arfaethedig* |
| Adeiladu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth (i arafu lledaenu) | *Dim mesur cysylltiedig arfaethedig* |
| **Llygredd o ardaloedd gwledig** | |
| Lleihau llygredd gwasgaredig yn y tarddle | Mabwysiadu systemau draenio SuDS gan gorff cymeradwyo SuDS. |
| Lliniaru / adfer effeithiau llygredd gwasgaredig ar dderbynnydd | Mabwysiadu systemau draenio SuDS gan gorff cymeradwyo SuDS. |
